
PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk/cy/news

# NEWYDDION Aber

*Aberystwyth… un o'r llefydd gorau yn y byd i fod yn fyfyriwr*

RHIFYN 16
Chwefror 2014




Llun: Neil Glasser

2 Bwced a rhaw ar y Prom

4 Cydnabod rhagoriaeth

6 Gwobr adaryddol

10 Ras newydd i'r gofod yn adrodd hen hanes

16 Symudiadau Cerddorfaol


## Deall peryglon llifogydd a dŵr yn well

Sara Penrhyn Jones, darlithydd yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, fydd arweinydd Prifysgol Aberystwyth ar brosiect tair blynedd fydd yn helpu cymunedau, unigolion a llunwyr polisi i ddeall materion sy'n ymwneud â dŵr yn well, materion megis perygl llifogydd, risg sychder, cael cyflenwadau dŵr a diogelu systemau gwastraff mewn ffordd greadigol.

Bydd Sara, a benodwyd yn 2011 dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn gweithio mewn partneriaeth â naw ymchwilydd o brifysgolion eraill yn y DG ar y prosiect, sydd wedi derbyn grant £1.5 miliwn gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau.

'Hydro-ddinasyddiaeth: Cysylltu cymunedau trwy ymatebion i faterion dŵr cyd-ddibynnol a lluosog' yw teitl y prosiect, a'i nod yw defnyddio dulliau sydd wedi'u seilio ar y celfyddydau i annog deialog gyhoeddus, er mwyn deall yn well y materion sy'n ymwneud â dŵr a chyfathrebu â phobl ynglŷn â'r materion dŵr sy'n effeithio ar eu hardal.

Bydd yn cynnwys pedair astudiaeth achos yn Nhal-y-bont a'r Borth, Bryste, Cwm Lee (Llundain) a Shipley yn Bradford. Bydd pob astudiaeth achos yn cynnwys cydweithio ag artistiaid, gweithredwyr cymunedol a phartneriaid cymunedol dethol, yn amrywio o grwpiau cymunedol bach i sefydliadau mwy sy'n gyfrifol am agweddau ar adfywio a chadernid cymunedol.

Bydd Sara, ynghyd ag Alex Plows o Brifysgol Bangor, yn cydreoli'r astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar Dal-y-bont a'r Borth, a fydd yn cael ei hwyluso drwy bartneriaeth ag Ecodyfi a Chreu-ad.

Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn cymryd rhan gysylltu â Sara Penrhyn Jones ar saj17@aber.ac.uk

Cyhoeddir NEWYDDION Aber gan **Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus**, Prifysgol Aberystwyth.

Ffon 01970 622946.
E-bost: cyfathrebu@aber.ac.uk

Bydd y rhifyn nesaf o NEWYDDION Aber ar gael ym mis **Ebrill 2014.**

Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **Dydd Llun 17eg Chwefror.**

NEWYDDION

# Bwced a rhaw ar y Prom

Gan arddangos ysbryd y gymuned, daeth 200 o wirfoddolwyr, gan gynnwys nifer o staff a myfyrwyr, i bromenâd Aberystwyth ddydd Sadwrn 11 Ionawr, gyda'u brwshis, eu rhawiau a'u berfâu, i glirio'r difrod a achoswyd gan y stormydd digyffelyb a hyrddiodd yn erbyn glan y môr ar ddechrau'r mis.

Fe wnaeth y llanw mawr 5.6m, gwyntoedd cryfion o'r de orllewin, a thonnau a oedd yn gawraidd wrth ymyl yr adeiladau ar lan y môr, godi cerrig palmant, rheiliau a meinciau, gan adael gweddillion, broc môr, graean a cherrig ar y prom.

Symudwyd rhyw 150 o fyfyrwyr o'r neuaddau glan-môr i dderbyn gofal ar Gampws Penglais. Cafodd hyd at 100 o fyfyrwyr eraill sy'n byw mewn llety preifat eu heffeithio yn ogystal. Gofynnodd y Brifysgol i fyfyrwyr beidio â dychwelyd i Aberystwyth ac fe gafodd arholiadau a dyddiadau cyflwyno aseiniadau eu gohirio am wythnos.

Ni wnaethpwyd llawer o ddifrod i adeiladau'r Brifysgol ar lan y môr; gorlifwyd rhannau ohonynt, a chollwyd ambell lechen a thorrwyd ambell ffenestr.

Ond ni fu cysgodfan y baddondy, sy'n adeilad rhestredig gradd II ar y prom, mor lwcus, ac mae'r gwaith o'i ddatgymalu ar gyfer ei atgyweirio wedi dechrau. Ymsuddodd y gysgodfan eiconig, a fu ar y prom am 90 mlynedd, a chwalwyd rhan ohoni wrth i'w sylfeini gael eu tanseilio gan y tonnau nerthol. Cynhyrchodd Dr Pete Bunting, uwch-ddarlithydd synhwyro o bell yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, fap 360-gradd yn dangos faint o ddifrod a achoswyd i'r gysgodfan. Gan ddefnyddio proses o'r enw Lidar (canfod golau ac anelu), cynhyrchodd Dr Bunting fideo sy'n dangos y strwythur yn gorwedd ar hafn islaw'r prom.

Adroddodd Rebecca Davies, y Dirprwy Is-Ganghellor Gwasanaethau Staff a Myfyrwyr, fod hwyliau da ar y myfyrwyr a gafodd eu symud o'u cartrefi, gan ychwanegu: "Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd i aelodau'r staff, y gwasanaethau brys, Cyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru, y gymuned leol, y gweithredwyr rheilffyrdd a bysiau, a fu wrthi'n ddygn yn ceisio sicrhau bod ein myfyrwyr i gyd yn ddiogel ac yn sych."



*Myfyrwyr Aberystwyth yn darparu cŵn poeth, brechdanau bacwn, a diodydd poeth ar gyfer y gweithwyr blinedig*



*Bu dau gant a mwy o wirfoddolwyr o bob oed yn helpu i glirio'r prom*

## Yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr
## The National Student Survey

Mae'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol ('AMC') wedi dechrau unwaith eto ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'n rhedeg o 27 Ionawr - 14 Ebrill 2014.

Mae angen i bob prifysgol sy'n derbyn arian cyhoeddus sicrhau bod eu myfyrwyr yn cymryd rhan, ac mae'r arolwg yn rhan o fframwaith sicrhau ansawdd diwygiedig ar gyfer addysg uwch. Y nod yw casglu adborth ar ansawdd cyrsiau myfyrwyr. Mae'r canlyniadau'n cael eu defnyddio yn allanol yn y Setiau Gwybodaeth Allweddol newydd, ar Unistats ac yn cael eu defnyddio mewn crynoadyddion tabl cynghrair, ac mae'r arolwg yn rhoi gwybodaeth hynod werthfawr i ni fel prifysgol, ar lefel pwnc ynghylch sut y gallwn gymryd camau i barhau i wella profiad dysgu'r myfyrwyr.

Rydym yn gobeithio y bydd cymaint o fyfyrwyr â phosib yn cwblhau'r arolwg.

Mae myfyrwyr wedi derbyn e-bost yn eu gwahodd i gwblhau'r Arolwg. Mae'r rhai nad ydynt wedi cwblhau'r arolwg yn cael eu cysylltu yn ddiweddarach drwy'r post neu dros y ffôn maes o law. Carem weld cymaint â phosib yn cwblhau ar-lein yn gynnar yn y broses, felly gwnewch yn siwr fod eich myfyrwyr yn ymwybodol o'r NSS a'u hannog i gwblhau'r arolwg ar-lein yn www.thestudentsurvey.com. Eleni, rydym yn cynnig y cyfle i ennill 30 taleb Amazon gwerth £ 50 i unrhyw un sy'n cwblhau cyn 31 Mawrth.

John Grattan, Lucy Hodson a Sam Reynolds sy'n arwain ar hyrwyddo'r NSS, ac rydym wedi cynnal cyfarfodydd gyda'r Hyrwyddwyr NSS yn yr adrannau. Gall Sam (smr8@aber.ac.uk) ddweud wrthych pwy yw eich Hyrwyddwr yn eich adran academaidd.

Gwnewch yn siŵr bod eich myfyrwyr yn ymwybodol:

- o'r arolwg a sut y gallant gymryd rhan - mae ymchwil yn dangos bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cael gwybod am yr NSS trwy eu darlithwyr;
- fod croeso iddynt roi eu hadborth gonest;
- na ddylid holi iddynt lenwi'r arolwg tra bod aelod o staff yn goruchwylio iddynt hymatebion neu eu yn gwneud deimlo bod eu ymatebion yn cael eu monitro;
- nad ydynt yn cael eu hannog i gynnwys unrhyw beth heblaw eu canfyddiad gwirioneddol am eu profiad, yn eu hatebion.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Lucy Hodson, Cyfarwyddwr, Swyddfa Gynllunio x2011 lhh10@aber.ac.uk. Os oes gan eich myfyrwyr unrhyw gwestiynau dylech eu cyfeirio at www.thestudentsurvey.com neu gallan nhw gysylltu â thîm yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol yn Ipsos MORI yn uniongyrchol ar thestudentsurvey@ipsos.com.

## COLOFN YR IS-GANGHELLOR



Rwy'n siŵr fod pawb yn ymwybodol o'r tywydd anghyffredin a gawsom ddechrau Ionawr. Roedd Aber yn amlwg iawn yng nghyfryngau'r DG, ac ar dudalen blaen y Malaysian Financial Daily, ac fe gafodd ein Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Chris Thomas, y profiad rhyfedd iawn o wylio teledu Swahili yn ystod taith ymchwil i Dansania a chlywed y gair 'Aberystwyth' a gweld lluniau o'r Prom!

Bu'r llifogydd a'r tywydd garw yn brawf ar ein cynlluniau wrth gefn – i'r graddau ein bod ni wedi gallu canslo'r 'diwrnod adfer mewn argyfwng ffug' a drefnwyd ar gyfer diwedd Ionawr! Mae'r ffaith bod ein tîmau wedi ymdopi mor dda yn dyst i'n prosesau cynllunio mewn argyfwng rhagorol, yn ogystal â chefnogaeth wych ein myfyrwyr.

Rydym yn ymwybodol iawn, a hithau'n ddechrau'r tymor a'r arholiadau ar y gorwel, ei bod hi'n ansefydlog ar y gorau i fyfyrwyr orfod symud o'u hystafelloedd, neu fod yn ansicr ynglŷn â pha bryd y gallant ddychwelyd i Aber. Rydym yn ddiolchgar iawn am ddealltwriaeth cynifer o'r myfyrwyr a wrandawodd ar y cyngor i ohirio dychwelyd i'r brifysgol tan ar ôl i'r stormydd gilio. Ac mi roedd ein 'faciwîs' yn arbennig o amyneddgar wrth symud mewn ac allan o'r neuaddau glan-môr, weithiau ar fyr rybudd, yn ystod penwythnos cyntaf y tymor.

Roedd ambell seren ymhlith y myfyrwyr a ddisgleiriodd yn arbennig o loyw yn ystod y stormydd. Yn ogystal ag ymdrechion rhagorol staff a swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr a fu'n helpu i symud myfyrwyr, rhaid cofio hefyd am y gwirfoddolwyr o blith y myfyrwyr a wisgodd eu crysau-T melyn Arwyr y Glas ac a oeddent wrth law i helpu'r myfyrwyr a effeithiwyd gan y stormydd. Rhaid estyn diolchiadau ychwanegol i Nathan Hazelhurst ac Ian Plested, sy'n fyfyrwyr yn y drydedd flwyddyn ac yn wirfoddolwyr Ambiwlans St Ioan, am arwain ystafell ymateb i argyfwng y dref.

Nid oedd hi'n ddelfrydol i symud yr arholiadau o wythnos, ond mi roedd hi'n hanfodol, a'r peth pwysig yw fod y penderfyniad wedi'i wneud a'i gyfathrebu'n sydyn, a bod pawb yn ddiogel ac yn cael gwybod yr wybodaeth ddiweddaraf. Roeddwn yn falch iawn o gael gwybod bod yr amserlen arholiadau ddiwygiedig wedi ei hailgyhoeddi ychydig oriau yn unig ar ôl i'r staff amserlenni ddychwelyd i'w gwaith.

Ond wrth gwrs, nid dyna oedd diwedd y stori. Bu nifer o staff a myfyrwyr yn helpu i lanhau'r Prom. Rwy'n gwybod bod y brechdanau bacwn a selsig a baratowyd gan Arwyr y Glas yn boblogaidd iawn hefyd!

Er gwaethaf yr heriau amgylcheddol hyn, bu'n gyfle i ymgysylltu â'r gymuned leol, a'n cymuned ehangach o gyn-fyfyrwyr. Mae'r negeseuon o gefnogaeth a'r sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol wedi ein sbarduno ymhellach, a bu'n wych i glywed maint yr hoffter tuag at y Brifysgol a'r dref. Rydym wedi bod yn anfon negeseuon at gyn-fyfyrwyr fod y Bar ar ddiwedd y Prom yn dal yno ac yn barod i'w gicio…

Roedden ni'n pryderi y gallai'r llanw uchel ailymddangos ddechrau Chwefror. Ond diolch i ymroddiad a gwaith caled staff y Brifysgol ac asiantaethau allanol, a chefnogaeth a chydweithrediad myfyrwyr a symudwyd, fe brofwyd ein bod ni'n gwybod sut i ymdopi. Wedi'r cyfan, efallai mai Aber yw'r unig brifysgol yn y byd i dderbyn neges yn trydar ac yn dyfarnu '11/10 am arweiniad yn ystod apocalyps'!

**Yr Athro April McMahon,** Is-Ganghellor

# Llwyddiant i Aberystwyth yng Ngwobrau'r Times Higher

Enillodd Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) wobr categori Cyfraniad Eithriadol i Arloesi a Thechnoleg Gwobrau Addysg Uwch y *Times Higher Education* ym mis Tachwedd 2013. Roedd cais llwyddiannus y Brifysgol yn canolbwyntio ar fridio a datblygu Glaswellt Siwgr Uchel (AberHSG) gan wyddonwyr yn IBERS.

Mae'r Brifysgol yn unigryw o fewn sector Addysg Uwch y DG gan ei bod yn meddu ar raglenni bridio planhigion masnachol llwyddiannus sy'n cynhyrchu mathau newydd sy'n cael eu marchnata yn y DG a thramor.




*Staff Prifysgol Aberystwyth yn dathlu yn y seremoni wobrwyo ddisglair yng Ngwesty'r Grosvenor House, Park Lane yn Llundain*

# Adeilad Elystan Morgan

Ar 22 Tachwedd gwahoddwyd yr Arglwydd Elystan Morgan i agor cartref newydd Adran y Gyfraith a Throseddeg yn swyddogol. Mae'r adeilad wedi ei enwi ar ei ôl.

Cafodd y cyn Farnwr ac Aelod Seneddol Llafur ei addysg yn Ysgol Ramadeg Ardwyn, Aberystwyth, ac yna aeth ymlaen i astudio'r gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth. Dros y blynyddoedd mae'r Arglwydd Elystan Morgan wedi cadw cysylltiad agos â'r Brifysgol gan wasanaethu fel Llywydd am 10 mlynedd rhwng 1997 a 2007.

Mae Adeilad Elystan Morgan yng Nghanolfan Llanbadarn Prifysgol Aberystwyth ac yn gartref i dros 850 o staff a myfyrwyr. Mae pob ystafell, 119 ohonynt i gyd, yn yr adeilad pedwar llawr wedi cael eu hadnewyddu yn ddiweddar a bellach yn cynnwys yr offer diweddaraf a chyfleusterau TG.



*Chwith i'r Dde: Yr Arglwydd Elystan Morgan, yr Athro April McMahon a'r Athro John Williams*

NEWYDDION

# Llwyddiannau Cyhoeddi



Kate Hamer

Mae gwaith dau o fyfyrwyr ôl-raddedig yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol wedi cael ei dderbyn gan gyhoeddwyr o bwys yn y Deyrnas Gyfunol.

Mae Kate Hamer, sydd newydd gwblhau gradd MA mewn ysgrifennu creadigol, wedi cael ei harwyddo ar gyfer dau lyfr gan Faber. Bydd nofel gyntaf Kate, *The Girl in the Red Coat*, yn cael ei chyhoeddi yng Ngwanwyn 2015. Mae'r nofel yn adrodd hanes merch ifanc, Carmel, a'i mam. Pan mae Carmel yn mynd ar goll mewn gŵyl un diwrnod, mae'r fam a'r ferch yn cychwyn ar eu teithiau brawychus eu hunain, mewn stori ddirgelwch sy'n cynnwys isleisiau o stori tylwyth teg.

Mae Sarah Savitt o Faber wedi galw Kate yn "llais newydd nodedig yn ffuglen Prydain". Mae'r hawliau Almaenig i'r nofel wedi eu gwerthu am swm o chwe ffigur.



Eliza Granville

Daw llwyddiant Kate yn syth ar ôl cytundeb cyhoeddi arall i un o ôl-raddedigion yr adran. Bydd *Gretel and the Dark*, nofel Eliza Granville, sydd ar hyn o bryd yn fyfyriwr Ysgrifennu Creadigol PhD, yn cael ei chyhoeddi gan Hamish Hamilton, un o wasgnodau Penguin, yn Chwefror 2014. Nofel lenyddol a ysbrydolwyd gan chwedlau tylwyth teg Grimm yw hon.

Disgrifiodd Anna Kelly, golygydd cynorthwyol yn Hamish Hamilton, y nofel yn "hynod wreiddiol ac ysgogol", gan ychwanegu bod Eliza yn "storïwraig naturiol".

Llongyfarchwyd y ddwy fyfyrwraig ar eu llwyddiant gan Dr Katherine Stansfield, darlithydd mewn Ysgrifennu Creadigol: "Mae pawb yn yr adran yn hynod o falch dros Kate ac Eliza. Mae cael eu derbyn gan gyhoeddwyr mor flaenllaw â Faber a Penguin yn gamp anhygoel, ac mae'n dystiolaeth o ansawdd yr awduron sy'n gweithio yn yr adran a'r gefnogaeth a roddir iddynt gan y staff.

# Diwrnod Pythagoras

Ar ddechrau mis Rhagfyr roedd y Brifysgol yn rhan o gydweithrediad unigryw gydag Amgueddfa Ceredigion a Choleg Ceredigion i ddathlu un o'r ffigyrau pwysicaf hen wlad Groeg.

Mwynhaodd tua 150 o blant ysgol y digwyddiad Diwrnod Pythagoras a gynhaliwyd yn Amgueddfa Ceredigion ar 5 Rhagfyr 2013. Roedd yr union ddyddiad wedi ei ddewis yn ofalus gan fod y rhifau yn ffurfio triawd Bythagoreaidd (mae 5/12/13 yn driawd Bythagoreaidd yn cynnwys tri chyfanrif positif: a2 + b2 = c2).

Sicrhaodd cymysgedd ddiddorol o bosau, arddangosfeydd a gweithgareddau mathemategol bod y cipolwg ar fyd yr athronydd a'r mathemategydd Groegaidd mor ddifyr ag yr oedd yn addysgol.

# Llwyddiant Myfyrwyr y Gyfraith Aberystwyth wrth Ymryson


Bu Martin Jones a Robert Donaldson, myfyrwyr uwchraddedig yn y gyfraith, yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth ymryson Ryng-golegol Irwin Mitchell/Prifysgol Caerlŷr ar 30 Tachwedd 2013. Bu'r tîm yn cystadlu mewn rowndiau yn erbyn Prifysgol Caerlŷr, Prifysgol Lincoln, Prifysgol De Montford a Phrifysgol Sussex cyn cyrraedd y rownd derfynol yn erbyn Prifysgol Warwick. Er mai Prifysgol Warwick a enillodd y rownd derfynol, pwysleisiodd y Beirniaid fod y gystadleuaeth yn un agos iawn a chanmolwyd y ddau dîm am eu sgiliau dadlau.

Bu tîm o Brifysgol Aberystwyth hefyd yn cystadlu'n ddiweddar yn rownd gyntaf Cystadleuaeth Ymryson Genedlaethol OUP a BPP yn erbyn Prifysgol Caeredin. Aelodau tîm Aberystwyth oedd Edward Ditchfield a Lauren Mankee a Sebastian Lim. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth a'i beirniadu gan Mr Richard John, partner yng Nghyfreithwyr Alun, Thomas & John Aberystwyth. Collodd Aberystwyth i Gaeredin o ddau bwynt, ond fe gyfeiriodd Mr John at sgiliau cyflwyno neilltuol y ddau dîm.



*O'r chwith i'r dde: Ymrysonwyr, Edward Ditchfield (Uwch Gwnsler), Lauren Mankee (Cwnsler Iau), a Sebastian Lim (eilydd a chynorthwy-ydd ymchwil)*

# Cydnabod rhagoriaeth




Dyfarnwyd Rhodd Goffa Mrs Foster Watson (2013) i'r Athro Iwan Rhys Morus o'r Adran Hanes a Hanes Cymru am ei lyfr, *Shocking Bodies: Life, Death and Electricity in Victorian England.*

Dyfernir Rhodd Goffa Mrs Foster Watson bob pum mlynedd i aelod o staff Prifysgol Aberystwyth am waith cyhoeddedig sydd yn ysgolheigaidd ac eto o ddiddordeb cyffredinol.

Dyfarnwyd y rhodd, sydd bellach yn ei naw degfed blwyddyn, am y tro cyntaf yn 1923.

Ystyrir y llyfrau a gyflwynir ar gyfer Rhodd Goffa Mrs Foster Watson gan banel o dri beirniad o fri, ac fe ddyfernir y wobr ar sail gwerth y llyfr fel cyfraniad i wybodaeth a'i ddiddordeb i'r darllenwr diwylliedig.

Mae'r Athro Iwan Rhys Morus yn hanesydd gwyddoniaeth, technoleg a meddygaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae ei lyfr *Shocking Bodies: Life, Death and Electricity in Victorian England* (History Press, 2011) yn ystyried sut yr oedd pobl Oes Fictoria yn meddwl am drydan, ac yn ceisio defnyddio ei rym corfforol a manwl i ateb cwestiynau sylfaenol am fywyd a marwolaeth, gan egluro hefyd sut y datblygodd trydan yn arf newydd grymus ar gyfer gwneud synnwyr o'n cyrff a'r byd o'n hamgylch.

NEWYDDION

# Cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth

Mae myfyrwyr yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes wedi bod wrthi'n datblygu eu sgiliau cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth.



Mae pymtheg o fyfyrwyr wedi cwblhau cwrs a oedd yn ceisio datblygu'r 'sgiliau meddal' sy'n hanfodol er mwyn llwyddo mewn cyfweliadau ac asesiadau recriwtio, a phrofi'r modd y defnyddir technegau arwain. Roedd y cwrs, sy'n rhan o brosiect £40,000 dan nawdd yr Academi Addysg Uwch ac o dan arweiniad Yr Athro Andrew St George, yn cynnwys sesiynau yn yr ystafell ddosbarth, ac ymarferion yng nghanol Bannau Brycheiniog yn Nhal-y-bont ar Wysg ym Mhowys.


Trwy gydol dau ymarfer – un ohonynt dros nos – bu'r myfyrwyr yn gweithio mewn tîmau i gwblhau cyfres o dasgau a gynlluniwyd i brofi sgiliau arwain a meithrin tîm a chafodd pob cyfranogydd dro i arwain eu grŵp. Goruchwyliwyd y myfyrwyr gydol yr amser gan dîm o staff milwrol mewn swydd a chyn-staff milwrol o'r cwmni datblyu arweiniad DarkBlu, a gynigiodd adborth ac arweiniad ar sgiliau'r myfyrwyr.

Bydd data oddi wrth y myfyrwyr yn cynorthwyo tîm o'r Ysgol Rheolaeth a Busnes, dan arweiniad Dr Nishikant Mishra, i ddatblygu offeryn mesur arweiniad. Mae'r meddalwedd yn defnyddio rhesymeg niwlog a rhesymeg sy'n seiliedig ar achos i asesu sut y mae pobl yn gwneud a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella fel arweinwyr.

Ar 2 Rhagfyr, trefnodd y Biz (cymdeithas yr Ysgol Rheolaeth a Busnes) gystadleuaeth 'Den Aber', cystadleuaeth fusnes debyg i 'Dragons' Den', gyda chwe thîm yn cyflwyno cynllun busnes i banel o feirniaid. Roedd yn rhaid i bob tîm ddangos sut y byddai'n buddsoddi £75,000 mewn eiddo masnachol yng nghanol tref Aberystwyth, gan ddangos proffidioldeb, creadigrwydd a marchnata.

Y 'Dreigiau' oedd Steve McGuire, Julie McKeown, Tony Orme a'r entrepreneur lleol Victoria Kearney o Electrical Estimates. Dyfarnwyd y wobr gyntaf i dîm 'The Morning After', yn cynnwys israddedigion yr Ysgol Rheolaeth a Busnes, Kieren Allen a Charlie Burman, a enillodd wibdaith i Farcelona.

## Academyddion Ysgol Rheolaeth a Busnes yn diogelu £2.1 miliwn



*Professor Peter Midmore*

Mae'r Athro Peter Midmore o'r Ysgol Rheolaeth a Busnes yn arwain prosiect gwerth £2.1 miliwn i ymchwilio i sut mae ymchwil wyddonol ar amaethyddiaeth yn effeithio'r economi, cymdeithas a'r amgylchedd yn Ewrop.

Ynghyd â naw o bartneriaid ar draws Ewrop a chydweithwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth, yr Athro Andrew Henley a Dr Maria Plotnikova, bydd yn cydlynu prosiect dros y tair blynedd or enw IMPRESA (Effaith Ymchwil ar Amaeth yr UE).

Esboniodd yr Athro Midmore, "Mae wedi cael ei brofi fod buddsoddiad cyhoeddus a masnachol mewn ymchwil ar amaethyddiaeth yn cael effaith gadarnhaol ar gynhyrchiant ar y fferm. Llai a wyddwn am ei effeithiau ar strwythur y fferm ac o amgylch cymunedau gwledig.

"Bydd y prosiect hefyd yn ystyried sut y gall ymchwil helpu busnesau, yn y byd ffermio ac ar hyd y gadwyn fwyd, i ymdopi â gostyngiadau tebygol mewn cymorthdaliadau cyhoeddus. Bydd dadansoddiad gofalus o wariant cyffredinol ymchwil amaethyddol ac amcanion yn cael ei gynnal a bydd astudiaethau achos eang o achosion unigol yn archwilio eu heffeithiau."

Bydd cyllideb yr UE ar gyfer ymchwil amaethyddol yn dyblu dros y blynyddoedd nesaf o'i gymharu â chyfnod 2009-2013. Bydd y casgliadau o'r astudiaeth yma yn helpu i lunio polisi ymchwil amaethyddol y dyfodol yn Ewrop.

## Cyfieithu ar gyfer busnesau Cymru

Mae tri myfyriwr sy'n dilyn y cwrs MA Cyfieithu Cymhwysol yn yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd wedi derbyn ysgoloriaeth Mynediad i Feistr a byddant yn cyfieithu ar gyfer tri busnes yng Nghymru.

Mae Rose Maloney yn cyfieithu ar gyfer Cwmni Caws Cheddar Blaenafon, Abigail Mason ar gyfer Distyllfa Chwisgi Penderyn a Jessica Dixon ar gyfer Rheilffordd Cwm Rheidol yn Aberystwyth.

Mae'r cwrs Meistr a ddysgir mewn Cyfieithu Cymhwysol, a ddatblygwyd gan yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd, yn cael ei gyflwyno am y tro cyntaf y flwyddyn academaidd hon ac mae'n cyfuno agweddau ymarferol a damcaniaethol cyfieithu. Mae'n rhaglen arloesol a fydd yn dyfnhau dealltwriaeth y myfyrwyr o gyfieithu fel gweithgarwch proffesiynol ac mae'n cynnwys modiwlau ar gyfieithu ar gyfer y Teledu, y Llwyfan a'r Sgrîn a Chyfieithu ar gyfer Busnes a'r Gymuned.

Mae Mynediad i Feistr yn cael ei ariannu'n rhannol gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd drwy raglen Cydgyfeiriant yr Undeb Ewropeaidd ac fe'iu gweinyddir gan Lywodraeth Cymru.



*Chwith i'r Dde: Dr Andrea Hammel, Jessica Dixon, Rose Maloney ac Abigail Mason*

NEWYDDION

## Canolfan y Celfyddydau yn cefnogi Ymgyrch ‘Rhoi Cartref i Natur’ RSPB Cymru

Mae Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth wedi cael ei dewis yn un o bum safle bwysig yng Nghymru i hyrwyddo ymgyrch RSPB Cymru ‘Rhoi Cartref i Natur’ sy’n anelu at ysbrydoli rhagor o bobl Cymru i greu cartrefi newydd i natur.

Nod yr ymgyrch a lansiwyd ym mis Mehefin yw helpu i fynd i’r afael â’r ‘argyfwng tai’ sy’n wynebu bywyd gwyllt sydd o dan fygythiad yng Nghymru, gan annog pobl Cymru i darparu lle i fywyd gwyllt yn eu gerddi a’u mannau agored eu hunain.

Fel rhan o’r ymgyrch mae blychau nythu, gwestai chwilod a thai draenogod wedi eu gosod mewn adeiladau eiconig ledled Cymru. Mae Portmeirion, Pont Menai, Castell Powys, yr Ardd Fotaneg Genedlaethol ac Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn ogystal â Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth i gyd wedi darparu cartrefi ar gyfer natur er mwyn ceisio denu rhagor o fywyd gwyllt.

Daeth lansiad yr ymgyrch fis ar ôl i 25 o sefydliadau bywyd gwyllt, yn cynnwys RSPB Cymru, ryddhau’r adroddiad arloesol *State of Nature* a oedd yn datgelu bod 60% o rywogaethau bywyd gwyllt a astudiwyd wedi dirywio dros y degawdau diwethaf. Mae llawer o ffefrynnau’r ardd ymhlith y creaduriaid sydd mewn trafferth ddifrifol, gan gynnwys y drudwy, draenogod, rhai gloÿnod byw a’r fuwch goch gota. Maent i gyd mewn perygl o ddirywio ymhellach oni bai bod mwy yn cael ei wneud i ddarparu cynefinoedd gwell ar eu cyfer.



*Rachel Scurlock, Cynorthwydd Marchnata, yn gosod blwch nythu yng Nghanolfan y Celfyddydau. Ffotograff: Arvid Parry Jones*

Am ragor o wybodaeth am yr ymgyrch ‘Rhoi Cartref i Natur’ ewch i wefan RSPB: www.rspb.org.uk/homes.

# Gwobr adaryddol

Mae Stacey Melia, myfyrwraig a raddiodd mewn Sŵoleg o Brifysgol Aberystwyth yn 2013, wedi ennill Gwobr Cymdeithas Adaryddol Cymru ar gyfer y prosiect gorau gan fyfyriwr.

Roedd y prosiect yn seiliedig ar astudiaeth o sut y mae ffactorau amgylcheddol yn newid pysgod sy’n cael eu bwyta gan y gwalch - un o adar bridio mwyaf prin Cymru.

Bu Stacey yn gwneud ymchwil ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn ar safle Prosiect llwyddiannus Gweilch y Ddyfi ar aber Afon Ddyfi ger Machynlleth, a bu’n astudio effeithiau amodau amgylcheddol ar ddewis y gweilch o ysglyfaeth.



*Stacey yn derbyn ei gwobr gan yr arbenigwr bywyd gwyllt, y darlledwr a Llywydd Cymdeithas Adaryddol Cymru, Iolo Williams*

# Deall y prosesau sy’n arwain at gyflymu rhewfas

Mae’r brodyr Bryn ac Alun Hubbard o’r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear wedi ennill £340,000 i ymchwilio i’r prosesau sy’n gyrru llif cyflym rhewlifoedd.

Bydd yr ymchwil yn cynnwys cynnal arolygon a drilio tyllau i lawr hyd at 1,000m trwy rewlif all-lifol yn Silff Iâ’r Ynys Las i wneud arbrofion ac arsylwadau manwl ar y ffordd y mae rhewlifoedd o’r fath yn symud dros eu creigwely a’u sylfaen gwaddod.



*Dr Alun Hubbard yn drilio i mewn i rew o dan lyn yn yr Ynys Las*

Dengys ymchwil fod rhewlifoedd y byd, mewn rhai mannau, yn toddi hyd at 100 waith cyflymach nag ar unrhyw adeg yn ystod y 350 o flynyddoedd diwethaf, a bydd gan hyn oblygiadau sylweddol i’r dyfodol. Yn ôl adroddiad diweddaraf y Panel Rhyngwladol ar Newid Hinsawdd, gallai’r cynnydd yn y cyflymdra y mae y mae Silff Iâ’r Ynys Las yn colli màs iâ achosi i lefelau’r môr godi 50cm o fewn y ganrif.

Dywedodd yr Athro Alun Hubbard, “Y dŵr tawdd a’r mynyddoedd iâ sy’n dod o’r Ynys Las sy’n gwneud y cyfraniad mwyaf sylweddol ac uniongyrchol i’r cynnydd yn lefelau môr y byd, sydd ar hyn o bryd yn cyflymu ar raddfa frawychus. Mae hynny’n rhagolwg difrifol iawn i ardaloedd isel arfordirol a phoblog iawn ein planed.”

NEWYDDION

# Ymchwil tele-iechyd


Joseph Keenan

Joseph Keenan, sef myfyriwr PhD yn yr Adran Seicoleg yw'r ymchwilydd sy'n arwain astudiaeth sy'n edrych ar fanteision defnyddio technoleg tele-iechyd gyda chleifion â salwch terfynol sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac ynysig yng Ngheredigion dros y gaeaf hwn.

Mae'r ymchwil, a gyllidir trwy'r Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth, yn edrych sut y gall y dechnoleg ddiweddaraf alluogi gofalwyr iechyd proffesiynol i gysylltu â'u cleifion o gysur eu cartrefi dros fisoedd y gaeaf.

Dros gyfnod dwys o dri mis o fis Ionawr i Fawrth 2014, bydd yr astudiaeth yn monitro chwe chlaf a'u gofalwyr anffurfiol gan nodi a ydynt yn gweld y dechnoleg yn ddefnyddiol. Bydd pwyslais yn cael ei roi ar effaith tele-iechyd ar iechyd a lles yr unigolyn a pha mor aml y maent yn cyfathrebu â nyrsys ac ymarferwyr yn Ysbyty Bronglais.

Ym mis Rhagfyr 2013, cyhoeddwyd bod Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi cyflawni statws Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol yn sgil y gwaith agos y mae'n ei wneud â phrifysgolion yng Nghymru ar draws ystod eang o bynciau.

# Ymchwil folcano ar restr fer Lloyd's


Dr Carina Fearnley

Roedd Dr Carina Fearnley o'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn un o bum ymgeisydd i gyrraedd rhestr fer gwobr flynyddol Gwyddoniaeth Ymchwil Risg Lloyd's eleni, a oedd yn canolbwyntio ar elfennau dynol o risg.

Cafodd Dr Fearnley, darlithydd mewn Peryglon Amgylcheddol, ei chynnwys ar restr fer categori 'Risg Ymddygiadol' ac mae'n edrych ar y prosesau penderfyniadau sy'n gysylltiedig wrth neilltuo lefel rhybudd llosgfynydd a'r cymhlethdod risg sy'n gysylltiedig â'r broses.

Mae ei hymchwil yn edrych ar Leihau Risg Trychineb, ac yn canolbwyntio ar y rôl o ddeall a chyfathrebu ansicrwydd, risg a chymhlethdod i ddatblygu gallu i wrthsefyll peryglon naturiol ac amgylcheddol.

Gan ddefnyddio cyfweliadau a gynhaliwyd rhwng 2007 a 2009 mewn pum arsyllfa llosgfynydd Arolwg Daearegol UDA yn Alaska, Cascades, Hawaii, Long Valley, a Yellowstone, dangosodd Dr Fearnley nad yw penderfyniadau rhybuddio yn seiliedig ar wyddoniaeth yn unig ond hefyd ar gyd-destun cymdeithasol lle mae'r argyfyngau yn digwydd.

# Achrediad parhaus i'r Ganolfan Ryngwladol Saesneg

Mae Canolfan Ryngwladol Saesneg y Brifysgol yn falch o gyhoeddi iddi ddal ei gafael ar Achrediad y Cyngor Prydeinig am bedair blynedd arall.

Archwiliwyd y Ganolfan yn Awst 2013 a chydnabu'r Cyngor Prydeinig bod y cyrsiau a'r gwasanaethau i fyfyrwyr yn bodloni eu meini prawf archwilio manwl, sy'n cynnwys safonnau rheoli, addysgu, adnoddau a lles.

Mae Accreditation UK a oedd yn cynnal yr archwiliad, yn gynllun sicrwydd ansawd arbenigol ar gyfer darparwyr gwasanaethau dysgu Saesneg yn y DG. Amcan y cynllun yw rhoi gwarant o ansawdd i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio neu'n bwriadu astudio Saesneg yn y DG.

Yn y Ganolfan Ryngwladol Saesneg nodwyd cryfderau arwyddocaol yn yr addysgu a'r dysgu, rheoli gweinyddiaeth ac adnoddau myfyrwyr a lles.

Bydd y Ganolfan yn parhau â'i hymdrechion i ystyried a gwella ei hystod o gyrsiau, rhai cyn-sesiynol a rhai yn ystod sesiynau, ac yn croesawu'r cyfle i ddatblygu a chryfhau cysylltiadau ag adrannau er mwyn creu darpariaethau o ansawdd ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol yn y Brifysgol.

Rachael Davey, Cyfarwyddwr y Ganolfan Ryngwladol Saesneg, rad27@aber.ac.uk Est: 1985

# Gair yn Gymorth

Ym mis Hydref 2013 cyhoeddodd CAA (Cyhoeddwr Adnoddau Addysg) y llyfryn *Gair yn Gymorth* ar gyfer hyfforddeion sy'n dilyn y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg fel rhan o'u Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) cyfrwng Cymraeg TAR Uwchradd.

Nod y cynllun a noddir gan Lywodraeth Cymru yw gwella ansawdd Cymraeg llafar ac ysgrifenedig darpar athrawon sy'n awyddus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Prifysgol Aberystwyth sy'n gweithredu'r cynllun ar ran Llywodraeth Cymru.

Dywedodd Manon Wyn Siôn, y Cydlynydd Cenedlaethol fod "y Cynllun yn mynd o nerth i nerth gyda thros 100 o hyfforddeion wedi ymuno eleni. Yr her wrth gwrs, yw sicrhau fod sgiliau ieithyddol yr hyfforddeion yn y Gymraeg o ansawdd a'u bod nhw'n llwyr ymwybodol o ofynion ieithyddol eu pynciau unigol. I'r diben hwnnw y cyhoeddwyd y llyfryn."

Mae'r llyfryn wedi ei rannu'n unedau sy'n cynnig enghreifftiau o batrymau iaith ac ymadroddion i'w defnyddio a'u bwydo i'r disgyblion mewn amrywiol gyweiriau iaith. Mae'r matiau iaith wedyn yn codi ymwybyddiaeth hyfforddeion o hanfodion ffurfiau ysgrifennu safonol.

## YR ADRAN YMCHWIL, BUSNES AC ARLOESI




Cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig cyn y Nadolig pan lwyddwyd i gyflwyno FfRhY2014 ddydd Mercher 27 Tachwedd, ddeuddydd cyn y dyddiad cau swyddogol.

I'r rheiny ohonoch nad ydych yn gwybod am y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY), proses o adolygu gan arbenigwyr ydyw, a gynhelir bob chwe blynedd, i bwyso a mesur ansawdd yr ymchwil y mae Prifysgolion y DG yn ei gynhyrchu (www.ref.ac.uk). Rydym yn aros yn eiddgar am ganlyniad FfRhY2014 ym mis Rhagfyr 2014 ac mae'r tîm FfRhY a Monitro Ymchwil eisoes wedi dechrau'r broses o edrych ymlaen at FfRhY2020.

A hithau'n Flwyddyn Newydd, rwy'n falch o gyhoeddi nifer o benodiadau diweddar o fewn i'r Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi. Crëwyd y swyddi hyn er mwyn symleiddio'r gwasanaethau a gynigiwn, i gydweithwyr yn y Brifysgol a chwsmeriaid allanol, drwy strwythuro ein gweithgareddau o amgylch chwe philer (a amlinellir isod):


*Bydd deiliaid y swyddi hyn yn ymuno â'r ddau reolwr sydd yma eisoes:*

### DATBLYGU YMCHWIL RHYNGDDISGYBLAETHOL




**Dr Jenny Deaville**
Rheolwr Datblygu Ymchwil

### DATBLYGU BUSNES



**Dr Rhian Hayward**
Rheolwr Datblygu Busnes

### FFRHY A MONITRO YMCHWIL




**Hannah Payne**
Rheolwr FfRhY a Monitro Ymchwil

### RHEOLI PROSIECTAU A SICRHAU ANSAWDD YMCHWIL, BUSNES AC ARLOESI




**Karen Hutton**
Rheolwr Prosiectau a Sicrhau Ansawdd Ymchwil, Busnes ac Arloesi

### CONTRACTAU A PHOLISÏAU



**Chris Heidt**
Chris Heidt – Rheolwr Contractau a Gweithrediadau

### CYLLID YMCHWIL, BUSNES AC ARLOESI



**Emyr Reynolds**
Rheolwr Cyllid Ymchwil

Edrychwn ymlaen at ymgysylltu â chydweithwyr yn yr Adrannau a'r Athrofeydd i rannu gwybodaeth am ein strwythur newydd ac i drafod cyfleoedd i gefnogi ymchwil a gweithgarwch menter ar draws y Brifysgol ymhellach. Fel rhan o'r broses hon, gobeithiwn gynnal sioe deithiol o ddigwyddiadau a sesiynau gwybodaeth yn y Gwanwyn a chewch wybod amdanynt drwy'r llwybrau cyfathrebu mewnol.

**Gary Reed,** Cyfarwyddwr – Ymchwil Busnes ac Arloesi
www.aber.ac.uk/rbi

# Chwilio am entrepreneuriaid ymhlith myfyrwyr

Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnal y gystadleuaeth fusnes i fyfyrwyr, Gwobr CaisDyfeisio, sy'n cynnwys gwobr o £20,000 ac ar agor i holl fyfyrwyr y Brifysgol.

Lansiwyd y gystadleuaeth yn ffurfiol ar 13 Tachwedd ac anogir ceisiadau gan unigolion neu dîmau a chanddynt syniadau am ddyfeisiau, busnesau newydd neu gynlluniau uchelgeisiol eraill. Bydd y gystadleuaeth, sy'n cael ei noddi gan gyn-fyfyrwyr y Brifysgol, ar agor i fyfyrwyr sy'n astudio yn Aberystwyth yn ystod 2013/14.

Jake Stainer, myfyrwyr yn astudio Marchnata a Sbaeneg yn Aberystwyth, a enillodd Wobr CaisDyfeisio 2013 am ei wefan i ddysgu iaith ar lein, Papora www.papora.com.

Bydd enillydd 2013/14 yn derbyn pecyn gwobr hael a fydd yn cynnwys cymorth a buddsoddiad hyd at £20,000 i gychwyn y busnes. Ar ben hynny, bydd yr holl gystadleuwyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael cyngor arbenigol gan banel o gyn-fyfyrwyr sydd wedi mentro'n llwyddiannus i fyd busnes.

Bydd y panel o feirniaid yn cynnwys saith o gyn-fyfyrwyr amlwg Aberystwyth, a fydd yn elwa o'u profiad mewn amrywiaeth o sectorau diwydiant. Bydd David Sargen, Rheolwr Bartner Derivatives Risk Solutions LLP yn Llundain, yn ymuno â'r panel am y tro cyntaf eleni. I weld rhestr lawn o aelodau'r panel, ewch i www.aber.ac.uk/cy/ccs/staff-students/business-start-up/enterprise-competitions/inventerprize/.

Dywedodd Tony Orme, Rheolwr Menter Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi Prifysgol Aberystwyth; "Os oes gennych syniad am gynnyrch neu wasanaeth newydd y gallwch ei droi yn fenter lwyddiannus, peidiwch â cholli'r cyfle hwn.

"Bydd yr enillydd yn derbyn cymorth ariannol, yn ogystal â chefnogaeth saith dyn a dynes amlwg ym myd busnes fydd yn gallu cynnig arweiniad a chyngor amhrisiadwy, sydd mor hanfodol i entrepreneur ifanc a busnes sy'n cychwyn."

Fel rhan o gystadleuaeth Gwobr CaisDyfeisio, cynhaliwyd amrywiaeth o weithdai a chyflwyniadau ysbrydoli i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn datblygu eu sgiliau mentro ac sy'n paratoi eu ceisiadau. Am y wybodaeth ddiweddaraf am y gystadleuaeth, ewch i www.aber.ac.uk/cy/ccs/staff-students/business-start-up/enterprise-competitions/inventerprize/.

Gan weithio mewn partneriaeth â'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni, trefnir Gwobr CaisDyfeisio gan yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi gyda chefnogaeth rhoddion gan gyn-fyfyrwyr drwy'r Gronfa Flynyddol 2013/14.

YR ADRAN YMCHWIL, BUSNES AC ARLOESI

# Materion Newid Hinsawdd

Bydd cyfres o ddarlithoedd cyhoeddus Consortiwm Newid Hinsawdd Cymru (C3W) yn parhau yn ystod 2014. Mae'r darlithoedd yn rhad ac am ddim ac yn agored i bawb.

Ymhlith y darlithoedd a gafwyd hyd yma y mae siaradwyr gwadd o Brifysgol Aberystwyth, ynghyd â siaradwyr allanol yn cynnwys Syr John Houghton cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Weithredwr y Swyddfa Feteorolegol a Dr John Gilliland OBE, cyn-lywydd Undeb Ffermwyr Ulster a Chymrawd Cymdeithasau Amaethyddol Brenhinol y DG.

Nod Consortiwm Newid Hinsawdd Cymru yw gwella'r ddealltwriaeth ynghylch achosion, natur, amseru a chanlyniadau newid hinsawdd ac mae'n dwyn ynghyd ymchwilwyr o Brifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe.

Ceir rhagor o wybodaeth am y gyfres o ddarlithoedd yn Aberystwyth yma: c3wales.org.

# Cynghrair Strategol Aberystwyth-Bangor

Ddwy flynedd ar ôl arwyddo'r Gynghrair Strategol rhwng Prifysgolion Aberystwyth a Bangor yn Rhagfyr 2011, cynhaliwyd digwyddiad yn y Senedd ar 4ydd Rhagfyr 2013 dan nawdd Elin Jones ac Alun Fred Jones, Aelodau'r Cynulliad, er mwyn amlygu'r llwyddiannau a'r cynnydd a wnaed.

Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar y budd roedd y naill ochr a'r llall yn ei gael o'r cydweithio yn nhermau cynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, ac wrth gefnogi cyflawni rhagoriaeth ryngwladol mewn meysydd penodol o weithgarwch.

Mae'r Gynghrair Strategol yn adeiladu ar waith y Bartneriaeth Ymchwil a Menter a sefydlwyd yn 2006 gyda chyllid oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i greu canolfannau ymchwil er mwyn hyrwyddo cydweithrediad wrth gyflawni ymchwil rhyngwladol gystadleuol.

Adroddodd yr Athro April McMahon, a'r Athro John Hughes, Is-Ganghellor Prifysgol Bangor am lwyddiannau'r Gynghrair wrth gynulleidfa amrywiol oedd yn cynnwys Aelodau'r Cynulliad, Llywodraeth Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac aelodau cynghorau'r naill brifysgol a'r llall. Tynnwyd sylw at y cydweithio cynyddol mewn ymchwil, cyflwyniad diweddar ar y cyd i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY) 2014 mewn meysydd penodol, Strategaeth Dysgu ac Addysgu Sefydliadol ar y cyd sy'n arloesi yn Addysg Uwch y DG, a chydweithio sy'n datblygu mewn ystod o feysydd gwasanaeth er mwyn cyflawni cynnwys ac ansawdd amgenach.

# 'Y Gwyll: Pobl Chwilfrydig Leol'

Ed Thomas, sylfaenydd a Chyfarwyddwr Creadigol y cwmni cynhyrchu ffilm a theledu annibynnol, Fiction Factory, oedd prif siaradwr Rhwydwaith Busnes Prifysgol Aberystwyth ym mis Rhagfyr. Mae 'Fiction Factory' yn enwog am gynhyrchu dramâu arloesol, poblogaidd arobryn, a dyma'r cwmni a fu'n cydgynhyrchu *Y Gwyll/ Hinterland*, y gyfres dditectif newydd a saethwyd un ar ôl y llall yn Gymraeg a Saesneg yng Ngheredigion.

Mae Ed yn Gymrawd Anrhydeddus yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, ac fe gymerodd ran mewn sesiwn holi ac ateb brwdfrydig dan gadeiryddiaeth Dr Jamie Medhurst mewn neuadd lawn o wahoddedigion allanol a chydweithwyr yn y Brifysgol.

Yn ystod ei ymweliad ag Aberystwyth, bu Ed hefyd yn trafod ei waith mewn theatr, ffilm a theledu gyda myfyrwyr a staff o'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Ceir rhagor o wybodaeth am Rwydwaith Busnes Prifysgol Aberystwyth ar lein ar: www.aber.ac.uk/cy/ccs/network.



*Ed Thomas (canol) gyda Dr Jamie Medhurst a'r Athro April McMahon*

# Y Gynghrair Strategol yn sicrhau Rhwydwaith Adnoddau Naturiol Cymru

Mae Prifysgolion Aberystwyth a Bangor yn ddiweddar wedi sicrhau un o'r tair Rhwydwaith Ymchwil Genedlaethol glodfawr o dan raglen Sêr Cymru Llywodraeth Cymru.



*Yr Athro David Thomas, Cyfarwyddwr Rhwydwaith Adnoddau Naturiol Cymru*

Mae gan y prosiect sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gyllideb uniongyrchol o £7m dros gyfnod o bum mlynedd a disgwylir iddo gynhyrchu rhagor o incwm ar gyfer y sector yng Nghymru. Bydd y rhwydwaith yn mynd i'r afael â Her Fawr Carbon isel, Ynni a'r Amgylchedd Llywodraeth Cymru, ac yn canolbwyntio ei ymdrechion ar gefnogi, meithrin a datblygu ymchwil yn y rhyngwyneb rhwng agendâu gwyddoniaeth, cryfderau arwyddocaol y naill sefydliad a'r llall.

Bydd y rhwydwaith yn tynnu at ei gilydd brif rinweddau gwyddoniaeth Cymru yn y meysydd hyn ac arbenigedd cyflenwol y Ganolfan Hydroleg ac Ecoleg, Arolwg Daearegol Prydain a'r Swyddfa Dywydd. Mae'r cydweithio gyda Phrifysgol Bangor o dan y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Integredig yn yr Amgylchedd Wledig a'r Ganolfan Ymchwil i Ddalgylchoedd ac Arfordiroedd wedi darparu sail ardderchog ar gyfer datblygu'r gwaith hwn, gan arwain gwyddoniaeth Gymreig yn y maes hwn.

Bydd y rhwydwaith yn adeiladu ar y maint o ymchwil a wneir yng Nghymru ac yn cefnogi ysgoloriaethau ymchwil a chymrodoriaethau yn sefydliadau ymchwil Cymru i wella'r cyfleusterau ardderchog sydd eisoes ar gael. Mae'r rhwydwaith yn cael ei ariannu am gyfnod cychwynnol o bum mlynedd. Penodwyd yr Athro David Thomas yn gyfarwyddwr y rhwydwaith a dechreuodd ar ei waith ar 1af Rhagfyr 2013.

ERTHYGL NODWEDD

# Ras newydd i'r gofod yn adrodd hen hanes am y cais am rym 'meddal'

Gary Rawnsley, a ymunodd â'r Brifysgol yn 2013 yn Athro Diplomyddiaeth Gyhoeddus, yn trafod y ras i'r gofod yn y 1960au, a'r hyn sy'n gyffelyb iddi heddiw a sut mae'r ddau beth yn adlewyrchu'r cais am rym 'meddal'. Er mwyn dilyn blog Gary ar Ddiplomyddiaeth Gyhoeddus a Chyfathrebu Rhyngwladol ewch i http://wwwpdic.blogspot.com.



*Gary Rawnsley*

Ar Noswyl Nadolig 1968, y gofodwyr Frank Borman, James Lovell a William Anders oedd y bodau dynol cyntaf i wylio'r Ddaear yn codi dros orwel y lleuad. Mewn telediad byw a ddenodd y gynulleidfa fyd-eang fwyaf hyd y dyddiad hwnnw, cyfeiriodd Lovell at 'ehangder y gofod' cyn i dri aelod y criw darllen deg adnod gyntaf Llyfr Genesis i'r gwylwyr. A dangosodd ffotograff eiconaidd Lovell, *Earthrise*, i ni pa mor fregus yw ein planed ni mewn gwirionedd.

Bum mlynedd a deugain yn ddiweddarach, mae penawdau ar draws y byd erbyn hyn yn rhagweld mai Tsieinead fydd y dyn nesaf i osod ei droed ar y lleuad. Ar 14 Rhagfyr 2013, llong ofod ddi-griw o Weriniaeth Pobl Tsieina oedd y cerbyd cyntaf ers 37 blwyddyn i lanio ar y lleuad; ac nid oes yr un dyn wedi rhoi ei droed ar wyneb y lleuad ers Rhagfyr 1972.

Mae dros hanner canrif o archwilio'r gofod wedi cadarnhau'r berthynas symbiotig agos rhwng gwleidyddiaeth, gwyddoniaeth ac ymarfer yr hyn a elwir heddiw yn rym 'meddal' neu 'dawel'. Does dim sy'n dangos mawredd a gallu cenedl fel ei gallu i drefnu adnoddau a lansio dynion a pheiriannau i'r cosmos.

Yn yr un modd ag y mae pobl Tsieina yn dathlu cyraeddiadau eu rhaglen gofod fel arwydd o gryfder technolegol, gwyddonol ac economaidd eu gwlad, roedd rhaglen Apollo 8 yn 1968 yn cyfleu y Rhyfel Oer a 'gwres eirias' y 1960au. Dechreuodd yr hyn a ddaethpwyd i'w alw yn 'ras i'r gofod' rhwng yr Unol Daleithiau a'r Undeb Sofietaidd ar 25 Mai 1961 pan gyhoeddodd yr Arlywydd John F. Kennedy ymrwymiad America i lanio dyn ar y lleuad cyn diwedd y degawd. Roedd haerllugrwydd o'r fath yn nodweddiadol o egni, gweledigaeth a hyder ifanc Camelot. Ond roedd dyheadau Kennedy yn gynnyrch gwleidyddiaeth y Rhyfel Oer yn ogystal: yn 1957 roedd yr Unol Daleithiau wedi cael eu hanesmwytho pan lansiwyd Sputnik gan y Rwsiaid, y lloeren gyntaf i gylchdroi'r ddaear, a chynyddwyd y cywilydd pan anfonodd y Rwsiaid Luna 2 i'r lleuad gan gludo yno'r gwrthrych cyntaf a luniwyd gan ddyn yn 1959, a phan deithiodd Yuri Gagarin o gwmpas y ddaear yn 1961, y dyn cyntaf i wneud hynny. Roedd Kennedy hefyd wedi ei siglo gan fethiant trychinebus cyrch y Bay of Pigs, ac uwchgynhadledd aflwyddiannus gyda Khrushchev yn Fiena, a diflastod cynyddol ym Merlin a Fietnam. Roedd ar yr Arlywydd angen rhywbeth i argyhoeddi'r byd, ac yn bwysicach i argyhoeddi America, nad oedd grym a bri yr Unol Daleithiau yn dirywio. Felly roedd ei ymrwymiad i anfon dyn i'r lleuad yn ymdrech ddewr i uno'r genedl Americanaidd o amgylch un weledigaeth ac i hawlio rhagoriaeth wyddonol America dros eu gwrthwynebwyr Rwsiaidd. Mae'r gystadleuaeth ideolegol yn egluro lansiad cynamserol Apollo 8 ar ôl i NASA ddarganfod bod y Rwsiaid yn prysur baratoi i ennill y blaen ar yr Americaniaid drwy yrru dyn ar daith i gylchdroi o amgylch y lleuad. Oni bai am lwyddiant



*Credit: NASA. 'Earthrise' ffotograff gan William Anders, aelod o griw Apollo 8, ar 24 Rhagfyr 1968, yn dangos y Ddaear fel pe'n codi uwchlaw wyneb y lleuad. Nid yw'r ffenomen hon yn cael ei gweld gan unrhyw un oni bai ei fod ar gylchdro o amgylch y Lleuad. O herwydd cylchdro syncronaidd y Lleuad o gwmpas y Ddaear (h.y. yr un ochr o'r Lleuad sy'n wynebu'r Ddaear bob amser), ni ellir byth weld 'codiad y Ddaear' gan unrhyw arsyllwr sy'n aros yn ei unfan ar wyneb y Lleuad.*

Apollo 8 yn 1968 mae'n annhebygol y byddai Apollo 11 wedi mynd â dyn i'r lleuad ac yn ôl; ac oni bai am gymhelliant y Rhyfel Oer, mae'n annhebygol y byddai archwilio'r gofod wedi digwydd mor gyflym o gwbl.

Erbyn heddiw troednodyn mewn llyfrau hanes yw'r Undeb Sofietaidd, ac mae diddordeb yr Unol Daleithiau mewn archwilio'r gofod wedi edwino. Heddiw, mae cystadleuwyr newydd y byd, Tsieina ac India, yn gaeth i'w brwydr gofod eu hunain, gyda thaith ddi-griw Tsieina i'r lleuad yn cael ei lansio ddiwrnodau yn unig ar ôl i daith llong ofod India i blaned Mawrth gychwyn ar ei thaith flwyddyn i'r blaned goch. Mae gwyddonwyr a gwleidyddion yn Delhi Newydd ac yn Beijing wedi rhoi disgrifiad manwl o werth gwyddonol yr ymgyrchoedd hyn, ac ar yr un pryd yn pwysleisio eu manteision o ran grym meddal y tu mewn i'r gwledydd ac yn rhyngwladol. Dywedodd Prif Wyddonydd Rhaglen Tsieina i Archwilio'r Lleuad, yr Athro Ouyang Ziyuan, yn 2006, bod uchelgais ei wlad i lanio ar y lleuad yn adlewyrchu 'ei grym cenedlaethol cynhwysfawr.' 'Mae'n arwyddocaol,' meddai, 'ar gyfer ein bri rhyngwladol a chydlyniad ein pobl ein hunain.' Yn y cyfamser, mae rhaglen gofod India, y mae ei chost wedi ei feirniadu pan mae 53 miliwn o bobl yn dal i fyw mewn tlodi eithafol, hefyd yn ffynhonnell hunan fri. Pan gyhoeddodd y Prif Weinidog yr ymgyrch ar Ddiwrnod Annibyniaeth ei wlad yn 2012, gofynnodd golygydd gwyddoniaeth Teledu Delhi Newydd, 'Os bydd India yn llwyddo i gyrraedd Mawrth o flaen Tsieina, allwch chi ddychmygu'r balchder cenedlaethol?'

Yng nghyd-destun grym meddal, mae'n werth cofio bod gweithredoedd yn llawer pwysicach na geiriau: bydd yr hyn a wneir bob amser yn adrodd stori llawer mwy argyhoeddiadol na'r hyn a ddywedir. Er bod cost ariannol y ras i'r gofod yn destun cynnen, ni ellir gwadu gwerth cymryd rhan ynddi o safbwynt grym meddal. Ers i Borman, Lovell ac Anders syllu ar y Ddaear dros orwel y lleuad yn 1968 ni fu ein ffordd o edrych ar y blaned erioed yr un fath, ac am ychydig amser o leiaf roedd grym meddal yr Unol Daleithiau yn ddiogel.



**NEWYDDION Y MYFYRWYR**



## Mae hi fel ddoe pan oedden ni'n cyflwyno ein tîm Swyddogion Myfyrwyr llawn amser, ond mae'r semester diwethaf wedi gwibio heibio yn Undeb y Myfyrwyr.

Ar ddechrau'r tymor, roedden ni'n agor drysau ein bar pasta a phopty newydd, Briwsion, ac rydw i'n falch o ddweud ei fod yn llwyddiant mawr, gyda danteithion i'r dim ar gyfer staff a myfyrwyr fel ei gilydd. Fodd bynnag, nid arogl deniadol teisennau ffres yn unig sydd wedi hawlio sylw'r myfyrwyr. Yn ystod y semester diwethaf, rydyn ni wedi cofnodi bod mwy na thraean y myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n amrywio o glybiau chwaraeon a chymdeithasau i brosiectau gwirfoddol – sefyllfa ragorol! Mae'n hyfryd iawn gweld cynifer o fyfyrwyr yn ymwneud â phethau ar wahân i'w hastudiaethau.

Gwelwyd cerrig milltir arwyddocaol eraill yn cael eu cyrraedd yn ystod y semester diwethaf: etholwyd ein Swyddogion Addysg a Lles, Grace Burton a Laura Dickens yn aelodau o Bwyllgor Gwaith Cenedlaethol Cymru Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. O ganlyniad, bydd myfyrwyr Aberystwyth yn cael eu cynrychioli ar y llwyfan cenedlaethol. Roedd hyn yn dilyn ein llwyddiannau etholiadol diweddar, pan etholodd y myfyrwyr 10 myfyriwr i weithredu fel Swyddogion rhan amser am weddill y flwyddyn, gyda llawer o'r swyddi yn gweithio'n ddygn i gefnogi a chynrychioli grwpiau Adran Rhyddid o fyfyrwyr (LGBT, menywod, myfyrwyr anabl, du ac ethnig lleiafrifol) .

Heblaw hynny, rydyn ni'n ddiweddar, ynghyd â'r Brifysgol, wedi arwyddo addewid Amser i Newid Cymru, sy'n ein hymrwymo i weithio ar gynllun gweithredu i ddileu stigma a gwahaniaethu ar sail iechyd meddwl yn Aberystwyth. Mae hyn yn cyd-fynd â lawnsio ein cymdeithas Amser i Newid ein hunain sy'n cael ei rhedeg gan fyfyrwyr, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd i hyrwyddo'r datblygiadau hyn.

O edrych ymlaen, mae gennym brosiectau newydd cyffrous o'n blaenau. O ddechrau'r tymor hwn byddwn yn rhoi cychwyn ar ein gwasanaeth dosbarthu pitsa Stone Willy ar-lein a fydd ar gael i bob neuadd breswyl a swyddfa ar Gampws Penglais – gwasanaeth gwych i gydweithwyr sydd awydd eu tretio eu hunain neu sy'n rhy brysur i bicio allan i gael cinio!

Bu'r tîm yn yr Undeb yn brysur hefyd yn paratoi am ein Hwythnos Adfywio flynyddol (3-6 Chwefror), cyfle delfrydol i fyfyrwyr gael blas ar bobpeth sydd gan fywyd myfyrwyr i'w gynnig, yn cynnwys ffeiriau Masnach, Chwaraeon a Chymdeithasau, a rhywbeth cwbl newydd ar y cyd â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd – Ffair Gwirfoddoli. Rydyn ni hefyd yn edrych ymlaen yn arw at lawnsio Etholiadau'r Gwanwyn blynyddol, lle bydd myfyrwyr yn pleidleisio i ddewis pwy maent am gael eu cynrychioli ganddynt yn ystod 2014/15. Dylai ymchwiliad ac adolygiad llwyr o'r rheolau a'r hyfforddiant i ymgeiswyr ar gyfer y swyddogaeth ddemocrataidd greiddiol hon sicrhau proses deg a diddorol.

**John Glasby -** Prif Weithredwr, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth




*Swyddogion Undeb y Myfyrwyr yn dathlu arwyddo'r addewid. O'r chwith i'r dde: Ioan Rhys Evans, Grace Burton, Laura Dickens a Liv Prewett*

ADNODDAU DYNOL

## Rhaglen Cymorth i Staff

Fel y cofiwch o bosibl, cyflwynodd y Brifysgol Raglen Cymorth i Staff (RhCS) ym mis Tachwedd 2012 er mwyn darparu cefnogaeth, cyngor a chynghori ar gyfer ystod eang o faterion. Ceir manylion llawn am y gwasanaethau sydd ar gael yn http://www.aber.ac.uk/en/hr/employment-information/eap/.

Mae Tîm Gweithredol y Brifysgol wedi ystyried yr adborth oddi wrth y staff ac wedi adolygu'r nifer o wasanaethau a ddefnyddiwyd gan y staff gyda'r ddau ddarparwr yn ystod y deuddeg mis blaenorol ac wedi adnewyddu'r cytundeb am gyfnod o 12 mis arall gan gychwyn ar 1af Tachwedd 2013 gyda'r ddau:-

**Cyngor arbenigol, cwnsela a chefnogaeth arbenigol**

Mae'r gwasanaeth lles hwn i staff, a ddarperir gan PPC Worldwide, yn rhad ac am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol ac mae'n cynnig cyngor arbenigol, gwybodaeth werthfawr, cynghori arbenigol a chefnogaeth i'ch galluogi i baratoi ar gyfer ymdopi â digwyddiadau bywyd. Mae cefnogaeth ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Amcan PPC yw ateb eich cwestiynau yn syth, neu eich cyfeirio at yr ymgynghorydd, y cynghorwr neu'r ffynhonnell gwybodaeth mwyaf addas.

Gellir dod o hyd i rif ffôn a manylion mewngofnodi ar gyfer PPC yn www.aber.ac.uk/en/hr/employment-information/eap/eap-login/

**Gwasanaethau Cwnsela Therapiwtig (TCS)**

TCS yw ail o ddau ddarparwr y gwasanaethau hyn. O dan y slogan Time for Talking maent yn darparu gwasanaeth lle gall rheolwyr gyfeirio eu staff ar gyfer cynghori wyneb yn wyneb a therapi gwybyddol ymddygiadol (ThGY) wyneb yn wyneb. Dim ond drwy gael eich cyfeirio ato gan yr Adran Adnoddau Dynol y mae'r gwasanaeth *Time for Talking* ar gael. Adnodd i gefnogi gweithwyr a ddefnyddir gan Adnoddau Dynol ydyw i gefnogi unigolion sydd angen cefnogaeth bersonol arbenigol ychwanegol.

## Gweithgor Athrawon Rhan Amser

Mae gweithgor bychan wedi ei sefydlu gan Dîm Gweithredol y Brifysgol i edrych ar faterion sy'n ymwneud â throsglwyddo athrawon, tiwtoriaid ac arddangoswyr rhan amser sy'n cael eu talu wrth yr awr i delerau ac amodau cyflogaeth Prifysgol Aberystwyth yn unol ag Adran 10.1 o'r Cytundeb ar Gymhwysiad y Fframwaith Genedlaethol ar gyfer moderneiddio Strwythurau Cyflog ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r Grŵp wedi cyfarfod ar sawl achlysur ers ei sefydlu yn Hydref 2013 ac mae'n bwriadu cyflwyno ei gasgliadau a'i argymhellion i'r Adran Weithredol yn Ionawr 2014.

## Cynllun Diswyddo Gwirfoddol Newydd Amgenach

Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi cytuno ar becyn diswyddo gwirfoddol amgenach a fydd ar gael o 2 Ionawr 2014 hyd 31 Awst 2014 i staff fydd yn diweddu eu cyflogaeth yn y Brifysgol ddim hwyrach na 19 Rhagfyr 2014. Bydd y cynllun newydd amgenach yn darparu cyflog un mis ychwanegol ar ben y tâl presennol sy'n ymwneud â gwasanaeth. Ni fyddai'r tâl cyfnod rhybudd yn newid, h.y. byddai yn unol â gofynion cytundebol unigol.

## Y Broses Paru a Gosod

Yn dilyn cyflwyno'r strwythur Athrofeydd yn Awst 2013, mae'r Brifysgol wedi adolygu ei strwythurau a'i gofynion ar gyfer gwasanaethau gweinyddol a chlerigol yn unol ag amcanion ac anghenion yr Athrofeydd ac er mwyn gwella effeithiolrwydd gweithredol drwy'r Brifysgol.

Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r undebau llafur ac rydyn ni'n falch o allu dweud bod proses beilot, a fydd ble bynnag bydd hynny'n bosibl yn hwyluso paru a gosod staff o'u swyddogaethau presennol i swyddogaethau newydd ar raddfa gyffelyb, wedi ei chytuno.

Mae ymgynghori gyda staff ac undebau llafur ynglŷn â'r strwythur yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a rhagwelir y bydd y strwythurau gweinyddol newydd ar gyfer yr Athrofeydd yn weithredol o Ebrill 2014 ymlaen.

## Ymdopi â Llwythau Gwaith Academaidd

Ym Medi sefydlwyd gweithgor o gynrychiolwyr o'r holl Athrofeydd, Adnoddau Dynol a Chynllunio i hyrwyddo datblygiad model dyrannu ar gyfer yr holl Brifysgol. Mae'r grŵp yn gweithio ar ddynodi gofynion system o'r fath, a'i phrif ran yw'r angen am hyblygrwydd fel y gellir ei haddasu yn ôl anghenion gwahanol bynciau. Mae Grŵp Gweithredol y Brifysgol a'r Pwyllgor Staffio a Datblygiad Proffesiynol wedi cymeradwyo'r cynigion a'r bwriad yw rhoi cynnig ar gynllun peilot yn y semester hwn. Bydd hyn yn golygu gofyn i ychydig o aelodau staff o bob adran gynorthwyo i gasglu data fel y gellir datblygu system y gellir ei defnyddio drwy'r Brifysgol i gyd. Y cynllun yw y bydd y data a gesglir yn cael ei adolygu erbyn canol 2014 a'i roi ar waith drwy'r Brifysgol i gyd pan fydd y system wedi ei safoni.

## Gweithdrefn Cwyno

Mae'r undebau llafur wedi cytuno i'r Weithdrefn Cwyno newydd a fydd yn gymwys i'r holl staff. Mae'r manylion i'w gweld yn www.aber.ac.uk/en/hr/employment-information/grievance/ ynghyd â'r Cydgytundeb a fydd yn parhau yn ei le yn achos staff sydd o dan Statud ac yn aros penderfyniad y Cyfrin Gyngor a ddisgwylir yn 2014.

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r polisi a'r weithdrefn newydd hon at eich Rheolwr AD:

http://www.aber.ac.uk/cy/hr/hr-team/hrmanagers/

## Gweithdrefn Disgyblu

Yn Nhachwedd 2013 ailddechreuodd y trafodaethau a ddechreuodd yn 2012 i negodi Gweithdrefn Disgyblu newydd a fydd yn berthnasol i holl staff y Brifysgol. Hwyluswyd y cyfarfodydd gan ACAS ac ar y 6ed Rhagfyr 2013 a lluniwyd gweithdrefn ddrafft. Mae'r undebau llafur a'r Tîm Rheoli yn ystyried y polisi drafft ar hyn o bryd.

ADNODDAU DYNOL

## Rhoi hwb i nifer y menywod mewn gwyddoniaeth


*Dr Rachel Horsley a Dr Pip Nicholas*

Mae ymrwymiad Aberystwyth i gydraddoldeb rhwng y rhywiau wedi cael hwb ychwanegol gyda'r cyhoeddiad y bydd dwy wyddonwraig yn cael eu secondio i weithio, cefnogi a datblygu ceisiadau ar gyfer gwobr Efydd Athena SWAN IBERS ym mis Ebrill.

Mae Siarter Athena Swan yn cydnabod ac yn dathlu arferion da recriwtio, cadw a dyrchafu menywod mewn pynciau STEMM mewn addysg uwch ac wedi dod yn fwyfwy pwysig i Sefydliadau Addysg Uwch a Chynghorau Ymchwil yn y Deyrnas Gyfunol.

Bydd Dr Rachel Horsley, uwch ddarlithydd mewn Seicoleg yn y Athrofa y Gwyddorau Dynol, a Dr Pip Nicholas, Prif Ymchwilydd yn IBERS sydd â diddordeb cryf mewn systemau ffermio cynaliadwy ac organig, yn gweithio tuag at wneud cynnydd gwirioneddol tuag at amgylchedd gweithio gwell a helpu i oresgyn yr heriau sy'n wynebu menywod yn Aberystwyth.

Esboniodd Dr Nicholas, un o Hyrwyddwyr Amrywiath Athena SWAN, "Rydym yn gweld bod menywod yn cael eu tangynrychioli mewn gwyddoniaeth, yn enwedig mewn swyddi uwch. Rydym yn awyddus i ddechrau newid y cylch hwn drwy ddeall pam y gallai hyn fod a beth y gellid ei wneud i helpu merched gyrraedd eu llawn botensial yn y gweithle."

Ochr yn ochr â chais Athena Swan, mae Prifysgol Aberystwyth hefyd yn gwneud cais am yr Uned Herio Marc Siarter Cydraddoldeb Rhyw sydd ar gyfer staff academaidd, staff proffesiynol a chefnogi, adrannau adnoddau dynol, cydraddoldeb ac ymarferwyr amrywiaeth.

# Pobl Aber

Yn ystod yr wythnosau nesaf, bydd y Brifysgol yn lansio Pobl Aber, y system Hunanwasanaeth Staff newydd.

Golyga hyn y byddwch yn gallu cwblhau nifer o brosesau Adnoddau Dynol a chyflogres yn gyfan gwbl ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys diweddaru eich manylion personol, trefnu gwyliau blynyddol a chael gafael ar eich slip cyflog ar-lein.

Bydd Pobl Aber yn rhoi mynediad amser real at eich manylion personol lle byddwch yn gallu adolygu a diweddaru'r wybodaeth amdanoch eich hun heb orfod llenwi ffurflenni papur neu ofyn am newidiadau drwy Adnoddau Dynol neu Gyflogres.

Yn ganolog, bydd yn gwella cywirdeb ein data staff, ei gwneud yn hawdd i chi weld eich data yn ogystal â symud oddi wrth brosesau papur a oedd yn cymryd llawer o amser ac yn creu gwastraff diangen. Bydd hefyd yn creu gwerth drwy ein helpu i wella cyfathrebu a gwasanaethau a'r gefnogaeth yr ydych yn eu derbyn.

Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn eich diweddaru ar gynnydd Pobl Aber. Yn y cyfamser, gallwch gael gwybod mwy drwy ddilyn y ddolen hon: www.aber.ac.uk/cy/staff/aber-people/

## Dyrchafiadau academaidd

Dyrchafwyd yr aelodau canlynol o'r staff yn y gyfres ddiweddaraf o dyrchafiadau i aelodau academaidd y staff:

*Mae'r canlynol wedi eu dyrchafu i rôl Uwch Ddarlithydd:*

**Dr Ian Keirle**
Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
**Dr Daniel Burgarth**
Adran Mathemateg a Ffiseg
**Dr Xing Li**
Adran Mathemateg a Ffiseg
**Dr Fred Labrosse**
Adran Cyfrifiadureg
**Dr Lucy Taylor**
Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol
**Dr Alistair Shepherd**
Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol
**Dr Alastair Finlan**
Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol
**Dr Gareth Norris**
Adran y Gyfraith a Throseddeg
**Dr David Poyton**
Adran y Gyfraith a Throseddeg
**Dr Uta Kohl**
Adran y Gyfraith a Throseddeg
**Dr Anoush Simon**
Adran Astudiaethau Gwybodaeth
**Dr Guy Baron**
Adran Ieithoedd Ewropeaidd
**Margaret Ames**
Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
**Dr Paul Newland**
Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu

*Mae'r canlynol wedi eu dyrchafu i swydd Darllenydd:*

**Dr Rupert Marshall**
Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
**Dr Chris Beedie**
Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
**Dr Peter Abrahams**
Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
**Dr Helen Roberts**
Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
**Dr Andy Mitchell**
Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
**Dr Andrew Thomas**
Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
**Dr Paul O'Leary**
Adran Hanes a Hanes Cymru
**Dr Siân Nicholas**
Adran Hanes a Hanes Cymru
**Dr Marco Odello**
Adran y Gyfraith a Throseddeg
**Dr David Russell Hulme**
Cyfarwyddwr Cerdd
**Dr Colin Cruise**
Ysgol Gelf

*Mae'r canlynol wedi eu dyrchafu yn Athrawon:*

**Dr Alun Hubbard**
Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
**Dr Luis Mur**
Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
**Dr Elin Haf Gruffydd Jones**
Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
**Dr Malcolm Thomas**
Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes
**Dr Martyn Powell**
Adran Hanes a Hanes Cymru

DATBLYGIADAU

# Cynllunio i drosglwyddo ein strategaeth yn y 'byd newydd'


*Lucy Hodson*

Digwyddodd dau beth o bwys ddwy flynedd yn ôl: cyhoeddodd Prifysgol Aberystwyth Gynllun Strategol a newidiodd y drefn ariannu ar gyfer israddedigion llawn amser cartref a'r Gymuned Ewropeaidd yn sylfaenol ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig (y 'byd newydd'). Mae ymateb i'r ddau ddigwyddiad hyn wedi achosi newidiadau mawr mewn cynllunio a busnes a rheolaeth gwybodaeth.

Mae dod â'r tîm Systemau Gwybodaeth Busnes o Systemau Gwybodaeth (er eu bod yn dal i weithio'n agos iawn gyda Systemau Gwybodaeth yn Hugh Owen), swyddogaeth lywodraethol yr hen rôl Cofrestrydd, a'r Swyddfa Cynllunio gynt at ei gilydd wedi arwain at sefydlu adran Cynllunio, Llywodraethiant a Gwybodaeth Busnes. Mae hyn yn golygu bod arbenigwyr y Brifysgol mewn cipio data, prosesu a rheoli, dadansoddi data, llywodraethiant a pholisi i gyd yn gweithio gyda'i gilydd yn llawer agosach, ac yn dod â gwelliant parhaus i'r gefnogaeth cynllunio rydyn ni gallu ei ddarparu ar gyfer eich timau wrth i chi ddatblygu a gweithredu eich ymatebion eich hun i'r Cynllun Strategol.

**Mae ein pwyslais ar:**

- Trosglwyddo'r Cynllun Strategol drwy'r Athrofeydd a'r Adrannau drwy gyfrwng gosod targedau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a monitro perfformiad.
- Darparu cymwysiadau busnes sy'n ateb y diben ar gyfer rhagoriaeth ac effeithlonrwydd gweithredol, gwybodaeth rheoli gywir, amserol a defnyddiol a gallu rhagweld cadarn.
- Strwythurau a gweithdrefnau llywodraethol clir a chyson sy'n hyrwyddo gweithredu ac atebolrwydd.
- Galluogi'r Brifysgol i fod yn rhagweithiol mewn perthynas â ffactorau allanol, effaith polisi, meincnodi data a sganio'r gorwel.

**Dyma aelodau'r tîm:**

- Sarah Taylor a Clover Winton-Polak: dadansoddi polisi, rhyngweithiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru/Llywodraeth Cymru, rheoli risg, dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y Cynllun Strategol, a chynllunio cefnogaeth gyflawn.
- Systemau Gwybodaeth Busnes, yn cynnwys ein system cofnodion myfyrwyr, AStRA: Laurence Dupont, Leslie Johns, Mario Radu, Dylan Williams, Andra Jones, Peter Keating, Ian Owen a Chris Savill.
- Gwybodaeth Rheoli, Adrodd Statudol a Dadansoddi Data: Steve Walsh, Jan Howard, Nerys Roberts a Dan Gilbert. Mae eu gwaith yn anhepgor wrth gynllunio i ddod â newid sylweddol i'n safle yn y farchnad ac i wella ein perfformiad yn y tabl cynghrair.
- Cefnogi a chynghori Cyngor, Senedd a Pwyllgorau Cyllid a Strategol y Brifysgol: Geraint Pugh (Ysgrifenydd y Brifysgol) a Helen Davies. Mae Helen hefyd yn cefnogi ystod o weithgareddau eraill yn yr adran.

Fe hoffen ni weithio'n llawer agosach gyda'n cydweithwyr ar draws y Brifysgol ac rydyn ni'n awyddus i gael gwybod pa fath o reolaeth gwybodaeth fyddai o fudd i chi. Mae gennyn ni nawr y gallu i ddarparu ystod eang o dueddiadau'r gorffennol a rhagfynegiad o recriwtiad myfyrwyr, cyflogadwyedd, perfformiad tabl cynghrair, effeithiolrwydd modiwlau, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a bodlonrwydd myfyrwyr. Rydyn ni angen adborth gennych chi ar y ffordd orau i'ch helpu, fell cysylltrwch â ni, dowch draw i'r Ganolfan Ddelweddu am sgwrs, neu mynnwch gip ar ein gwefan newydd: www.aber.ac.uk/en/pgbi/.

**Lucy Hodson**, Cyfarwyddwr Cynllunio.

# E-gyflwyno

Bydd y Brifysgol yn symud tuag at e-gyflwyno gwaith sy'n seiliedig ar destun ac wedi ei eirbrosesu, ar gyfer ei asesu trwy AberDysguBlackboard o Fedi 2014.

Mae cyflwyno electronig yn ffordd effeithlon o gasglu gwaith sydd i'w asesu oddi wrth fyfyrwyr. Mae hefyd yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i staff ddarparu adborth gwerthfawr i fyfyrwyr (gan gynnwys adborth clywedol).

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen E-gyflwyno wedi ei sefydlu, sy'n cynnwys staff academaidd a chynorthwyol o bob rhan o'r Brifysgol. Mae'r Grŵp wrthi ar hyn o bryd yn drafftio Polisi E-gyflwyno'r Brifysgol, gan ystyried materion megis marcio ar-lein, argraffu, hyfforddi a chefnogaeth ar gyfer staff a myfyrwyr.

Meddai Kate Wright, o Dîm E-Ddysgu'r Brifysgol: "Mae prosiectau peilot e-gyflwyno drwy'r Brifysgol eisoes wedi dangos canlyniadau rhagorol ac mae nifer o adrannau a staff drwy'r sefydliad yn defnyddio e-gyflwyno yn llwyddiannus yn barod. Byddwn yn elwa ar eu profiad a'u harbenigedd i wneud y newid i e-gyflwyno mor esmwyth ag y bo modd."

Os nad ydych wedi defnyddio e-gyflwyno o'r blaen ac os hoffech ei ddefnyddio yn ystod semester dau, gallwch ddod i wybod mwy yma: http://nexus.aber.ac.uk/xwiki/bin/view/Main/turnitin. Ceir yma ganllawiau a fideos i fwrw'r cwch i'r dŵr, a gallwch gysylltu â bb-team@aber.ac.uk i gael mwy o help a chyngor.

Bydd ychwaneg o wybodaeth ynglŷn â'r symud tuag at e-gyflwyno yn cael ei darparu ar gyfer staff yn y misoedd sydd i ddod. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen E-gyflwyno yn gweithio gydag Athrofeydd ac Adrannau i helpu i baratoi ar gyfer y newid i e-gyflwyno.

Os oes gennych sylwadau y dylid eu hystyried gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, e-bostiwch hwy i e-project@aber.ac.uk.

POBL ABER

# Cyflwyniad i Gyfarwyddwr Newydd Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth



Gofynnwyd i mi ddarparu cyflwyniad cryno. Nid dyma fy hoff dasg gan na fyddaf byth yn gwybod beth i'w ysgrifennu, sut dylwn i fy nangos fy hun? Beth sy'n addas? Efallai y dylwn i fanteisio ar y cyfle a'i ddefnyddio er budd i mi fy hun ac i hyrwyddo fy hun? Efallai...

Ers i mi ddechrau gweithio yng Nghanolfan y Celfyddydau ar ddechrau Tachwedd, chefais i fawr o amser i ystyried y newid yn fy amghylchfyd personol. Rydw i wedi bod yn brysur a dweud y lleiaf. Mae cymaint ohonoch chi i'w cyfarfod (a byddaf yn ymdrechu i barhau i gwrdd â chymaint ohonoch ag sy'n bosibl, mor fuan ag y bo modd).

Felly, beth am y ffeithiau? Rwy'n un o Jacks Abertawe ac yn ymfalchio yn hynny, un o Dreforus yn wreiddiol, yn gefnogwr tîm Dinas Abertawe a'r Gweilch. Bûm yn astudio Theatr, Cerdd a'r Cyfryngau yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin (fel y'i gelwid gynt) a Theatr a Ffilm yn Central College, Pella, Iowa.


Yn fy swydd flaenorol yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, mae'n amlwg fy mod wedi dod yn gyfarwydd â chyflymder arbennig bywyd a gwaith. O Fae Caerdydd i Gapel Seion. Oes rhaid dweud rhagor?

Mae wedi bod yn gromlin dysg ddiddorol, ymdeimlad pendant o hunanddarganfod, addasu a chynefino â ffordd newydd o fyw a gweithio, ynghyd â wynebau a phersonoliaethau newydd niferus; mae cymaint i'w dderbyn a'i dreulio. Wedi dweud hynny, mae pawb wedi bod yn hynod o hael, cynnes a chroesawus. Hoffwn ddiolch i'r staff yng Nghanolfan y Celfyddydau a'r rhai ohonoch rwyf wedi cael cyfle i'w cyfarfod. Rwyf wedi cael fy ngwneud i deimlo'n gartrefol ac rwyf wedi derbyn cyflwyniad anhygoel o gadarnhaol i fywyd Aberystwyth. Diolch.

Mae Canolfan y Celfyddydau yn wych. Mae'n lle rhyfeddol gyda chalon ac ymdeimlad dwfn o gymuned yn greiddiol iddo. Rwy'n awyddus i adeiladu ar lwyddiannau presennol ac i ailfywiogi'r lle (y tu fewn a'r tu allan), gan ddod â rhyw gymaint o'r 'trendi' i'r holl le. Ond a bod yn gwbl o ddifrif, rwyf am i ni fod yn gyrchfan ffyniannus – Canolfan y Celfyddydau lle bydd ein hymwelwyr yn hapus, yn gyfforddus ac yn ymfalchio yn eu hamgylchoedd.

Galwch heibio i ddweud 'S'mai?' unrhyw bryd, byddwn wrth fy modd yn eich gweld yn mwynhau y cwbl sydd gan Ganolfan y Celfyddydau i'w gynnig a byddwn yn fwy na balch i sgwrsio gyda chi am y rhaglen a'r gweithgarwch sy'n digwydd yma ac yng nghymuned eangach Ceredigion. Pan ddaw'r haul i'r golwg unwaith eto, gobeithiwn y bydd gennym ddatganiadau cyffrous i'w gwneud am ddatblygiadau a digwyddiadau yn y dyfodol yn ac o gwmpas y Ganolfan a fydd gobeithio yn gwella bywydau cymdeithasol a diwylliannol pob un ohonom.

**Gareth Lloyd Roberts**
Cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

POBL ABER

# Proffil Person

*Yn Proffil Person rydyn ni'n canolbwyntio ar aelod o'r staff a'r rôl y mae'n ei chyflawni. Yn y rhifyn hwn rydyn ni wedi bod yn siarad gyda Hollie Wynne, Technegydd yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear.*



Hollie Wynne

**Soniwch ychydig amdanoch eich hun:** Ar ôl cwblhau graddau BSc ac MRes yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ym Mhrifysgol Aberystwyth, cefais gynnig cytundeb tymor byr fel cynorthwydd ymchwil yn Labordy Ymchwil Ymoleuedd Aberystwyth. Ers hynny mae fy swydd wedi ei gwneud yn un barhaol ac wedi ei ehangu i gynnwys goruchwylio'r Labordy Palaeoecoleg yn ogystal.

**Soniwch ychydig am eich rôl bresennol:** Rwy'n darparu samplau gwaddodion ar gyfer dadansoddiad ymoleuo samplau paill a diatom ar gyfer cyfrif misgrosgopig. Mae fy rôl yn un bur amrywiol ac yn golygu fy mod yn gweithio gyda phawb o israddedigion hyd Athrawon ac academyddion sy'n ymweld. Byddaf yn prosesu samplau ar gyfer staff academaidd ar gyfer eu gwaith ymchwil eu hunain ac fel rhan o brosiectau ymchwil cydweithrediadol allanol, a byddaf yn cynorthwyo nifer o ymchwilwyr PhD ac ôl-ddoethurol. Byddaf hefyd yn helpu i arddangos mewn sesiynau labordy israddedigion ac yn goruchwylio gwaith labordy ar gyfer traethodau israddedigion.

**Beth yw'r rhan fwyaf pleserus o'ch gwaith?** Mae gweld canlyniadau terfynol eich gwaith bob amser yn werth chweil. Mae'r talp cychwynnol o fwd ar gyfer gwaith palynoleg yn cael ei goethi a'i brosesu i gynhyrchu sleidiau o baill a biatomau a all gynnwys strwythurau a ffurfiau prydferth, a gallant ddweud cymaint wrthym am yr amgylchedd yn y gorffennol. Yn yr un modd, mae'r cymysgu a rhidyllu diddiwedd bron ar samplau ar gyfer dyddio ymoleuol yn y diwedd yn cynhyrchu sampl coeth y gellir ei ddefnyddio i ddweud wrthym pa mor hen yw'r gwaddodion hyn; mae rhai o'r samplau hyn yn hynod o gyffrous, er enghraifft tywod yn amgylchu gweddillion hominid cynnar neu yn cynnwys arteffactau hynafol. Mae hefyd yn hwyl i weld llawer o oesoedd ymoleuedd yn dod at ei gilydd, gan ein galluogi i weithio allan bethau fel pa mor gyflym y mae twyni tywod yn symud. Mae cael mynd allan i wneud gwaith maes yn gryn hwyl – mae gofyn bod yn hynod greadigol a meddwl ar eich traed wrth benderfynu ble a sut i gymryd samplau.

**Pe na baech chi yn y swydd hon, beth hoffech chi fod yn ei wneud?** Wn i ddim yn wir, pan oeddwn i'n iau roedd arna i eisiau bod yn folcaolegwr, ond wrth i mi astudio yn y Brifysgol sylweddolais mai'r hyn oedd o bennaf diddordeb i mi oedd dehongli hen gofnodion tywydd a newidiadau amgylcheddol, a chymhwyso tueddiadau gweledol y gorffennol i'n helpu i ddeall yn well yr hyn a all ddigwydd yn y dyfodol. Mae fy ngwaith yn y labordai ymchwil cwaternaidd yma ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ffitio'r diddordebau hynny yn berffaith, ac felly rwyf wrth fy modd yn gwneud y math o waith ditectif i amgylchedd y gorffennol y mae fy ngwaith yn ei olygu ar hyn o bryd.

**A beth am eich bywyd y tu allan i Brifysgol Aberystwyth?** Rwy'n mwynhau bod allan yn yr awyr agored – mae'r labordy ymoleuedd yn gweithredu mewn golau coch, tebyg i ystafell dywyll ffotograffiaeth, felly pan nad wyf yn y gwaith ceisiaf dreulio cymaint o amser ag y gallaf yn yr awyr agored. Rwy'n aelod o Glwb Athletau Aberystwyth a byddaf yn rhedeg rasys yn weddol reolaidd. Byddaf hefyd yn treulio tipyn o amser yn cerdded y bryniau ac yn coginio (ac yn bwyta!) teisennau.

# Symudiadau Cerddorfaol

Mae man cyfarfod newydd ar gyfer ymarfer gan Ganolfan Gerdd Prifysgol. Hyd yn ddiweddar roedd y gerddorfa symffoni arobryn, Philomusica, y Band Chwyth a grwpiau eraill wedi bod yn cynnal ymarferion yn yr Hen Drill Hall Edwardaidd oer ac anghysurus ar Ffordd Glyndŵr. Pan symudodd y gerddorfa a'r band yno, y bwriad oedd mai cartref dros dro fyddai'r lle, ond mae wedi cymryd 17 blynedd i ddod o hyd i fan addas i symud iddo.

Erbyn hyn mae ymarferion yn cael eu cynnal yn yr Hen Neuadd sydd wedi ei hailwampio yn yr Hen Goleg, ac mae'r Undeb Gorawl wedi symud yno hefyd, o Neuadd Josheph Parry i fyny'r ffordd. Mae'r eisteddleodd ar oleddf wedi ei symud oddi yno, ac mae yno lawr gwastad fel yn yr amser pan oedd yn gweithredu fel Neuadd Arholiadau'r Coleg. Bu hefyd am lawer blwyddyn yn neuadd datganiadau'r Adran Gerdd – felly mae iddi hanes hir ym myd cerddoriaeth yn barod.

Dywedodd Arweinydd Philomusica a'r Undeb Gorawl, Cyfarwyddwr Cerdd y Brifysgol, Dr David Russell Hulme, "Mae'r symudiad yn gam sylweddol ymlaen i ni. Mae Philomusica, y Band Chwyth a'r Undeb Gorawl a'n ensembles llai i gyd yn cynnwys myfyrwyr, staff a cherddorion o'r gymuned eangach. Mae'r grwpiau hyn yn



*Dr David Russell Hulme yn arwain Philomusica*

enghreifftiau gwych o'r berthynas rhwng y dref a'r coleg.

Yn ein man cyfarfod newydd mae gennym lawr newydd, muriau a goleuni disglair ac yn bwysicach na dim, mae'n gynnes yno! Am flynyddoedd lawer mae chwaraewyr ymroddedig Philomusica, Band Chwyth y Brifysgol a grwpiau cerddorol eraill wedi gorfod goroesi oerni ac anghysur yr Hen Drill Hall. Yn nyfnder gaeaf, cotiau trymion a menyg di-fysedd oedd y wisg arferol. Pan oedd y gerddorfa yn gweithio ar *Sinfonia Antartica* Vaughan Williams, nid oedd gofyn i'r chwaraewyr ddefnyddio llawer o ddychymyg er mwyn ymdeimlo â naws y gwaith!"

# Penodiadau



## CYFATHREBU, MARCHNATA A MATERION CYHOEDDUS


Penodwyd **Alwena Hughes Moakes** yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu, Marchnata a Materion Cyhoeddus. Ar hyn o bryd mae Alwena yn Swyddog Polisi a Gweithredol y Brifysgol, ac yn gyfathrebwraig PR sydd wedi ennill gwobrau. Graddiodd mewn Gwyddor yr Amgylchedd ym Aberystwyth, ac mae ganddi gymhwyster MA mewn Rheolaeth Newid a Diploma Ôl-radd mewn Cysylltiadau Cyhoeddus. Ymunodd â'r Brifysgol yn 2009 o asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus FBA yn Aberystwyth, a bydd yn dechrau ar ei swydd newydd ar 24 Chwefror.

## DATBLYGU A CHYSYLLTIADAU ALUMNI



Penodwyd **Louise Jagger** yn Gyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni. Gyda dros 25 mlynedd o brofiad mewn codi arian yn y Deyrnas Gyfunol, mae Louise wedi arwain ymgyrchoedd codi arian cyfalaf mawr, ymgyrchoedd codi arian a rhaglenni cyfrannu rheolaidd ar gyfer ystod o elusennau, gan gynnwys Scope, NCH a'r NSPCC. Yn gyn-fyfyrwraig o Brifysgol Caerfaddon, derbyniodd Louise MSc Econ mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn 2013 o Aberystwyth. Bydd hi'n dechrau ar ei swydd newydd ar 3 Mawrth.

## ADRAN Y GYFRAITH A THROSEDDEG



Penodwyd yr **Athro John Williams** yn Bennaeth newydd ar Adran y Gyfraith a Throseddeg. Mae'r Athro Williams yn olynu'r Athro Noel Cox yn y rôl, ac mae'n awdurdod ar y gyfraith a phobl hŷn, gyda phwyslais arbennig ar hawliau dynol pobl hŷn. Hwn fydd ail gyfnod yr Athro Williams fel Pennaeth Adran, gan iddo arwain yr adran rhwng 1999 a 2009.

## ATHROFA Y GWYDDORAU BIOLEGOL, AMGYLCHEDDOL A GWLEDIG



Mae'r Athro **Chris Thomas** wedi cael ei benodi fel Cyfarwyddwr Dros Dro ar IBERS. Yn Athro Sŵoleg yn IBERS, fe ymunodd Chris Thomas â Phrifysgol yn 2007 ac fe'i benodwyd yn Ddirprwy Is-Ganghellor â chyfrifoldeb dros Ymchwil ac Ansawdd Academaidd ym mis Mehefin eleni. Fe fydd yn dechrau yn ei swydd dros dro yn IBERS ochr yn ochr â'i rôl fel Dirprwy Is-Ganghellor.

## ADRAN CYFRIFIADUREG



Mae'r **Dr Bernard Tiddeman** wedi ei benodi yn Bennaeth yr Adran Gyfrifiadureg. Ymunodd Dr Tiddeman, sy'n arbenigo mewn dadansoddi delweddau wyneb, â'r Brifysgol yn gynnar yn 2010 fel Uwch Ddarlithydd. Graddiodd mewn Mathemateg Gymhwysol ym Mhrifysgol St. Andrews, astudiodd ar gyfer MSc mewn Cyfrifiadureg ym Mhrifysgol Manceinion a PhD mewn dadansoddi siâp yr wyneb ym Mhrifysgol Heriot-Watt, cyn datblygu gyrfa academaidd fel ymchwilydd a darlithydd ym Mhrifysgol St. Andrews yn gyntaf ac yn Aberystwyth yn ddiweddarach.



Mae'r **Dr Wayne Aubrey**, sy'n dod yn wreiddiol o'r Tymbl yng Nghwm Gwendraeth, wedi ei benodi'n ddarlithydd yn yr adran Cyfrifiadureg fel rhan o gynllun y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys bioleg gyfrifiadurol, bioleg systemau a pheirianneg genetig. Mae Dr Aubrey yn dychwelyd i Aberystwyth ar ôl treulio 3 blynedd yn ymchwilydd ôl-ddoethurol ym Mhrifysgol Manceinion.

## ADRAN GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL



Ymunodd yr **Athro Richard Beardsworth** â'r adran ym Medi 2013. Cyn hynny roedd wedi bod yn Athro Damcaniaeth Cysylltiadau Rhyngwladol ym Mhrifysgol Ryngwladol Fflorida ac yn Athro Athroniaeth Wleidyddol a Chysylltiadau Rhyngwladol ym Mhrifysgol Americanaidd Paris, lle bu hefyd yn gyfarwyddwr y ganolfan ymchwil raddedig. Mae ei ddiddordebau yn ymestyn dros amryfal feysydd o fewn a thu fas i ddisgyblaeth Cysylltiadau Rhyngwladol: damcaniaeth wleidyddol weriniaethol a damcaniaeth wleidyddol ryngwladol, damcaniaeth gritigol ryngwladol, astudiaethau diogelwch rhyngwladol ac economi wleidyddol ryngwladol.



Ymunodd **Dr Andrew Davenport** â'r adran ym Medi 2013 fel darlithydd mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol, ar ôl dysgu cyn hynny yng Ngholeg Queen Mary, Prifysgol Llundain a bod yn Ddarlithydd Gwadd ym Mhrifysgol Westminster. Enillodd ei radd PhD ym Mhrifysgol Sussex yn 2012 am draethawd ar feirniadaeth faterolaidd Realaeth.



Ymunodd **Dr Inanna Hamati-Ataya** â'r adran yn Nhachwedd 2013. Cyn hynny bu'n Ddarlithydd mewn Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Sheffield ac mae ei hymchwil ar groesffordd meysydd gwleidyddiaeth ryngwladol, damcaniaeth gymdeithasol-wleidyddol a chymdeithaseg gwybodaeth a gwyddoniaeth, ac mae'n canolbwyntio ar sylfaeni cymdeithasol ac amgylchiadau cynhyrchu/ trosglwyddo gwybodaeth yn y gwyddorau cymdeithasol, ac mewn Cysylltiadau Rhyngwladol yn benodol.



Ymunodd **Dr Christian Enemark** fel Darllenydd mewn Iechyd Byd-eang a Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn Hydref 2013. Cyn hynny bu'n Athro Cyswllt Polisi Diogelwch Cenedlaethol yn Ysgol Polisi Cyhoeddus Crawford, Prifysgol Genedlaethol Awstralia. Mae Dr Enemark yn gryn arbenigwr ym maes astudiaethau diogelwch.

POBL ABER

# Penodiadau

### ADRAN DAEARYDDIAETH A GWYDDORAU DAEAR



Ymunodd **Dr Andy Harvey** â'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ym Medi 2013 yn Ddarlithydd mewn Synhwyro o Bell a Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol, yn dilyn dwy flynedd ôl-ddoethurol yn yr adran yn astudio cynefinoedd malaria yn Tanzania. Mae mapio a deall y prosesau sy'n rheoli cynefinoedd dyfrol malaria yn dal i fod yn ganolbwynt allweddol i ymchwil Andy. Cyn hynny bu Andy yn darlithio ym Mhrifysgol Newcastle lle bu'n rhan o amryw brosiectau gwahanol gan gynnwys mapio gorchudd eira dros yr Himalaya gorllewinol.

### ADRAN Y GYMRAEG



Ymunodd **Dr Rhianedd Jewell** ag Adran y Gymraeg fel darlithydd mewn Cymraeg proffesiynol. Fe'i penodwyd drwy Gynllun Staffio Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a dechreuodd ar ei swydd ym Medi 2013. Astudiodd Rhianedd Ieithoedd Modern ym Mhrifysgol Rhydychen, ac aeth ymlaen i gwblhau gradd DPhil mewn Eidaleg yno. Cyn ymuno ag Aberystwyth, bu Rhianedd yn darlithio yn Adran Gymraeg Prifysgol Abertawe.

### SWYDDFA ANSAWDD A CHOFNODION ACADEMAIDD




Ymunodd **Emma Williams** â Phrifysgol Aberystwyth yn Bennaeth y Swyddfa Ansawdd a Chofnodion Academaidd (y Swyddfa Academaidd a Swyddfa'r Deoniaid gynt) ar ddiwedd Awst 2013. Cyn hynny roedd Emma yn Bennaeth y Swyddfa Gofrestru ym Mhrifysgol Falmouth lle roedd hi'n rheoli gweinyddiaeth academaidd, ansawdd, cofnodion myfyrwyr a gwybodaeth. Tra yn Falmouth, chwaraeodd Emma rôl allweddol i sicrhau'r teitl Prifysgol i'r sefydliad ac i reoli prosiect lwyddiannus Adolygiad Sefydliadol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA).

### CYMORTH I FYFYRWYR



Penodwyd **Caryl Davies** yn Gyfarwyddwr Cymorth i Fyfyrwyr ar ddechrau Rhagfyr 2013. Cyn hynny roedd Caryl wedi bod yn Gyfarwyddwr Dros Dro am ddau gyfnod estynedig rhwng 2011 a 2013. Bu Caryl yn gweithio yn y Brifysgol ers 2005 ar ôl iddi weithio cyn hynny yn y sectorau gwirfoddol a statudol ac ystod o rolau Cymorth i Fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd.



Graddiodd **Janet Hardy** yn Aberystwyth a bu'n gweithio am rai blynyddoedd yn yr Adran Gyfrifiadureg. Symudodd i Cymorth i Fyfyrwyr yn Nhachwedd 2012, i ymuno â'r Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth a Gwasanaeth Ariannol fel Cynghorydd Myfyrwyr. Pan fydd amser ar gael bydd Janet yn mwynhau dawnsio gwerin a hwylio.



Ymunodd **Ben Partridge** â thîm y Ddesg Croesawu Cymorth i Fyfyrwyr yn Awst 2013. Daw Ben yn wreiddiol o Lanidloes a bu'n astudio fel myfyriwr israddedig yn Aberystwyth lle mae ar hyn o bryd yn gweithio'n rhan amser ar gyfer MA mewn Celf. Cyn ymuno â Chymorth i Fyfyrwyr bu'n gweithio fel technegydd yn yr Ysgol Gelf ac mae'n addysgu llunio printiau fin nos.



Ymunodd **Rebecca Pyne** â thîm y Ddesg Croesawu Cymorth i Fyfyrwyr ym Medi 2013 ar ôl gweithio fel Gweithiwr Cefnogi gyda Chymorth i Fyfyrwyr am ddwy flynedd. Yn ei hamser hamdden mae Rebecca yn mwynhau ysgrifennu erthyglau gwyddonol a storïau byr ac yn ddiweddar mae hi wedi cwblhau cwrs darllen proflenni.

# Ymddeoliadau

### GWASANAETHAU GWYBODAETH



Ymddeolodd **Roger Matthews**, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth, ar ddiwedd Ionawr ôl treulio bron y cyfan o'i yrfa broffesiynol yn darparu ar gyfer anghenion TG staff a myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth. Fe'i cyflogwyd yn 1974 yn yr hyn oedd bryd hynny yn Uned Gyfrifiadurol a bu'n gyfrifol i raddau helaeth am ddatblygu ein gwasanaethau microgyfrifiaduron gwerthfawr cyn dod yn Ddirprwy-Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Gwybodaeth a oedd newydd ei greu yn 1996. Fe'i dyrchafwyd yn Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Gwybodaeth yn Ionawr 2012 ac mae'n ymddeol gyda dymuniadau da y Brifysgol.

### CYFRAITH A THROSEDDEG



Ymunodd yr **Athro Diane Rowlands** ag Adran y Gyfraith a Throseddeg fel myfyriwr israddedig hŷn a daeth yn ddarlithydd yn yr adran yn ddiweddarach. Mae hi wedi bod yn rhan o'r adran am dros ugain mlynedd ac mae hi wedi cyflawni amryfal swyddi pwysig yn yr adran, gan gynnwys Dirprwy Bennaeth ac yn ddiweddaraf yn Gyfarwyddwr Canolfan Ymarfer y Gyfraith. Dymunwn yn dda iddi yn y dyfodol ac edrychwn ymlaen at glywed am ragor o'i hanturiaethau tramor.

### CYMORTH I FYFYRWYR

Ymddeolodd **Dr John Powell** fel Cyfarwyddwr Cymorth i Fyfyrwyr ar ddiwedd Tachwedd 2013 ar ôl cyfnod o waeledd. Ymunodd â'r Brifysgol yn 2008 ar ôl gweithio cyn hynny mewn swydd gyffelyb ym Mhrifysgol Hong Kong. Yn ystod ei amser yn y Brifysgol daethpwyd â chymorth i fyfyrwyr gydag anawsterau dysgu penodol yn rhan o Gymorth i Fyfyrwyr ac ailgartrefwyd amryfal wasanaethau yn ganolog o fewn i'r Canolfannau Croesawu Myfyrwyr a Lles Myfyrwyr.

# Ras Elusen 10k Aberystwyth

Cymerodd tri ar hugain o aelodau Adran y Gyfraith a Throseddeg, yn fyfyrwyr a staff, ran yn Ras Elusen 10k Aberystwyth ar yr 8fed o Ragfyr 2013. Llwyddodd pob un i gwblhau'r ras, rhai mewn amser trawiadol. Enillwyd y wobr gyntaf yn y categori i fenywod o dan 20 oed gan y fyfyrwraig israddedig, Heddwen Daniel.



*Tîm Adran y Gyfraith a Throseddeg*

Cwblhawyd y Ras 10k gan wyth aelod o staff y Gwasanaethau Gwybodaeth hefyd, gan godi dros £1,000 ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru. Aelodau'r tîm oedd Julie Archer, Tim Davies, Lauren Harvey, Peter Hinxman, Rob Johnson, Jean Matthews, Meinir Morgan-Thomas ac Anita Saycell.



*Tîm y Gwasanaethau Gwybodaeth*

# Nofio'r Sianel

Yn y ffotograff (chwith i'r dde) gwelir Jackie Sayce (Athrofa Daearyddiaeth, Hanes a Gwleidyddiaeth), Bridget James (Canolfan Chwaraeon y Brifysgol), Alwena Hughes Moakes a Nerys Hywel (Swyddfa'r Is-Ganghellor) a gwblhaodd Nofio'r Sianel 'Aspire' 2013.

Derbyniodd y grŵp yr her i nofio lled y Sianel i godi arian ar gyfer pobl sydd wedi eu parlysu oherwydd anaf i linyn yr asgwrn cefn.

Drwy gymryd eu tro i nofio ym mhwll y Ganolfan Chwaraeon sydd newydd ei adnewyddu, nofiodd y tîm gyfanswm o 88 milltir mewn cwta 12 wythnos, gan godi £600 ar gyfer elusen 'Aspire' sy'n darparu cymorth ymarferol i'r 40,000 o bobl gydag anafiadau i linyn yr asgwrn cefn yn y DG, a'u helpu i fyw bywydau cyflawn ac annibynnol.




# Movember

Yn ystod mis Tachwedd, codwyd £300 gan John Harrington, Kevin Rothwell, Doug Kerr a George Jones o Gymorth Myfyrwyr tuag at Movember, elusen sy'n codi arian hanfodol ac ymwybyddiaeth o gancr y prostrad a'r ceilliau ac iechyd meddwl.

Ymunodd 'MoSistas' y swyddfa â'r pedwar 'MoBros' mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau codi arian. Dechreuodd y pedwar cyfaill y mis wedi eillio'n lân a buont yn twtio ac ymdrwsio eu locsys hyd amser yr eillio terfynol ar 30 Tachwedd.

Gellir parhau i gyfrannu i dudalen 'Tîm Movember Cymorth Myfyrwyr' yn http://uk.movember.com/team/1138221.



*Ch i'r Dd: John Harrington, Kevin Rothwell, Doug Kerr a George Jonesyn modelu eu Tashweddau*



# Hanner Marathon Conwy

Bu Rhian Evans, Cydlynydd Gwaith Cymorth yn y Tîm Cymorth i Fyfyrwyr, yn rhedeg Hanner Marathon Conwy ar 24 Tachwedd 2013, gan godi £150 tuag at y Gymdeithas Alzheimer. Hon oedd ei hanner marathon gyntaf ac roedd Rhian yn rhedeg er cof am ei thadcu a oedd yn dioddef o Alzheimer ac a fu farw yn 2008.

DIGWYDDIADUR

# Arddangosfeydd yr Ysgol Gelf



Dydd Llun 17 Chwefror –
Dydd Gwener 21 Mawrth

**Oriel 1 & 2**

**Ray Howard Jones 1903-1996: Arddangosfa Adolygol**

Arddangosfa Deithiol Prifysgol Morgannwg, curadur – yr Athro Tony Curtis.

Roedd bywyd Rose Marie (Ray) Howard-Jones, yn un eithriadol mewn sawl ffordd. Mynychodd Ysgol Gelf Slade lle cafodd ei dysgu gan Henry Tonks ac yn ddiweddarach bu'n gweithio yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu'n cofnodi'r llwytho ar gyfer D-Day ac roedd hi'n un o'r nifer fechan o artistiaid rhyfel benywaidd awdurdodedig swyddogol.

Teithiodd yn helaeth drwy Ewrop ar ôl y rhyfel a daeth i gael ei chysylltu'n agos â Chymru, yn arbennig Ynys Sgomer lle buodd hi'n treulio'r haf am sawl blwyddyn. Ysbrydolwyd Ray gan natur a chan y bywyd ysbrydol mewnol a bortreadir mewn dysgeidiaeth Gristnogol a chwedlau a dirgelion Celtaidd. Cynhaliodd ei harddangosfa unigol gyntaf yn 1935 ac mae ei gwaith wedi ei arddangos yn helaeth ers hynny.

Mae'r gwaith a welir yn yr arddangosfa yn ymdrin â'i chyfnod fel arlunydd rhyfel a'i thirluniau, traddodiadol a haniaethol, ac maent yn dod o gasgliadau cyhoeddus a phreifat.

Dydd Llun 17 Chwefror –
Dydd Gwener 28 Mawrth

**Oriel 3**

**Figure and Ground: Keith Vaughan - Darluniau, Printiau a Ffotograffau 1945-55**

Mae'r arddangosfa yn cynnwys tua 50 o brintiadau, darluniau a ffotograffau a ddetholwyd o blith bron i 500 o eitemau o waith Vaughan a gedwir yng nghasgliad yr Ysgol Gelf yn y Brifysgol ac mae wedi ei harddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru o fis Gorffennaf hyd fis Tachwedd 2012. Ni fu'r rhan hon o gasgliad Aberystwyth yn destun arddangosfa o'r blaen.


Mae'r arddangosfa yn archwilio gwaith yr artist Prydeinig Keith Vaughan (1912-1977) a'r themâu oedd yn ei ddiddori – y ffigwr gwrywaidd a gofod darluniadol.

Dylanwadwyd arno'n wreiddiol gan Graham Sutherland, ac roedd ei waith cynnar yn Neo-Ramantaidd ei naws. Tua diwedd y 1950au datblygodd ei 'gynulliadau' lled-haniaethol.

Yn yr arddangosfa cawn olwg newydd a gwreiddiol ar yr artist cymhleth hwn. Mae'n gasgliad sylweddol o ystod eang o waith mewn gwahanol gyfryngau: darluniau ar gyfer rhai o'i gomisiynau darlunio llyfrau pwysicaf, ei arbrofion gyda phrintio, a'i ffotograffau, y mae rhai ohonynt i'w gweld yn ei ddetholiad ei hun a gyhoeddwyd yn *Dick's Book of Photographs* (casglwyd tua 1939).

Mae'r llyfr llawn darluniau sy'n cyd-fynd â'r arddangosfa ac a gyhoeddwyd gan Sansom & Co, yn cynnwys tri thraethawd seiliedig ar ymchwil newydd ar Vaughan a'i gyfnod gan Dr Colin Cruise, yr Athro Robert Meyrick, Dr Harry Heuser a Dr Simon Pierse o'r Ysgol Gelf. Noddwyd y cyhoeddiad gan Ymddiriedolaeth Derek Williams, Ymddiriedolaeth Hargreaves a Ball a Phrifysgol Aberystwyth.

# The 39 Steps




Addaswyd gan Patrick Barlow o'r nofel gan John Buchan.

**Dydd Mercher 19 Chwefror i Dydd Gwener 21 Chwefror**

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Cymysgwch gampwaith Hitchcock gyda nofel ysbïo flasus, ychwanegwch fymryn o Monty Python ac mae gennych *The 39 Steps*, stori dditectif gyflym ar gyfer unrhyw un sy'n mwynhau hudoliaeth y theatr! Mae'r wledd hon, sydd wedi ennill gwobrau Tony® a Drama Desk yn llawn chwerthin, bysedd coll ac hyd yn oed tipyn o ramant hen-ffasiwn!

Mae dyn sy'n dilyn bywyd diflas yn cyfarfod â dynes gydag acen gref sy'n dweud ei bod yn ysbïwraig. Pan mae e'yn mynd â hi adref, mae'n cael ei llofruddio. Yn fuan, mae mudiad dirgel o'r enw 'The 39 Steps' ar ei ôl… Cynhyrchiad chwim, gafaelgar sy'n siwr o'ch cadw ar bigau drain! www.aberystwythartscentre.co.uk/cy/comedy/39-steps

# Gŵyl Ffilmiau Cymru a'r Byd yn un

WOW
Wales One World Film Festival
Gŵyl Ffilmiau Cymru a'r byd yn un

**Dydd Gwener 21 Mawrth i Dydd Iau 27 Mawrth**

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Mae Gŵyl Ffilmiau Cymru a'r Byd yn dychwelyd i Aberystwyth o ddydd Gwener 21 tan Dydd Iau 27 Mawrth gyda'n detholiad eclectig anhygoel o sinema'r byd i chi ei fwynhau.

Mae rhai o'r uchafbwyntiau eleni yn cynnwys *Nairobi Half Life*, cyfle prin i weld ffilm o Affrica, sy'n cyflwyno portread pwerus o fywyd yn slymiau Nairobi. Mae mynyddoedd ysblennydd Laos yn darparu cefndir hynod effeithiol i *The Rocket*, ffilm ddifyr, addfwyn am fachgen ifanc yn brwydro yn erbyn anawsterau bywyd. Mae *The Patience Stone* yn ffilm wirioneddol wych am fywyd dynes sy'n byw yng nghanol rhyfel yn Afghanistan. Enillodd y ffilm hyfryd *Winter Nomads*, am y bugeiliaid olaf i ddilyn eu preiddiau o gwmpas mynyddoedd y Swistir, y wobr am Ffilm Ddogfen Orau yng Ngwobrau Ffilm Ewropeaidd y llynedd.

www.wowfestival.com